Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd

Mawrth 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **@SeneddDCC**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd

Mawrth 2026

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 5**

**2. Gwaith craffu ar ddeddfwriaeth ... 9**

Craffu ar is-ddeddfwriaeth ... 9

Craffu ar Filiau ... 14

Craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ... 18

Hygyrchedd a chymhlethdod cyfraith Cymru ... 28

**3. Materion cyfansoddiadol ... 33**

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol ... 33

Cysylltiadau rhynglywodraethol ... 35

Fframweithiau cyffredin ... 35

Gweithrediad Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ... 37

Gweithio rhyngseneddol ... 39

**4. Materion allanol ... 41**

Rhwymedigaethau rhyngwladol ... 41

Cytundebau rhyngwladol ... 41

Materion y DU a'r UE ... 42

**5. Cyfiawnder yng Nghymru ... 45**

Gweithredu Comisiwn Thomas ... 45

Craffu ar Gyllidebau Drafft ... 46

Datganoli cyfiawnder ... 47

Tribiwnlysoedd Cymru ... 48

Craffu ar faterion penodol sy'n ymwneud â chyfiawnder ... 49

Canolfan Breswyl i Fenywod ... 49

Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd ac ystad y llysoedd .................................. 50

Carchar y Parc ........................................................................................................................ 52

**Atodiad 1 : Adroddiadau Monitro ........................................................ 54**

**Atodiad 2 : Is-ddeddfwriaeth y mae angen offerynnau cywiro ar ei chyfer, ym mis Mawrth 2026 ........................................................ 55**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Sefydlwyd y Pwyllgor ym mis Mehefin 2021[1] i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21 a Rheol Sefydlog 26C ac i ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â: deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad (gan gynnwys dyfodol cyfansoddiadol Cymru), cyfiawnder, a materion allanol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) newidiadau i'r setliad datganoli, a chysylltiadau rhynglywodraethol.

**2.** Mae'r Chweched Senedd wedi bod yn eithriadol o brysur i'r Pwyllgor, gyda gwaith craffu ar ddeddfwriaeth yn cyfrif am gyfran helaeth o'i lwyth gwaith, fel y mae'r ffeithlun ar dudalen 8 yn ei ddangos. Gwaetha'r modd, mae gormod o lawer o'r gwaith hwnnw wedi ymwneud â chraffu ar Filiau a gyflwynwyd yn Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Mae'r gwaith hwnnw'n angenrheidiol, ond mae wedi cyfyngu ar ein gallu i gynnal ymchwiliadau polisi ar draws ein cylch gorchwyl cyfan.

**3.** Yn gynnar yn y Chweched Senedd, er mwyn cydnabod ei gylch gorchwyl eang, cytunodd y Pwyllgor i fonitro datblygiadau polisi allweddol sy'n berthnasol i'w waith drwy gyhoeddi adroddiadau monitro rheolaidd ar ein gwefan. Mae'r adroddiadau monitro hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'n cylch gorchwyl wrth iddynt ddigwydd a datblygu rhwng 2021 a 2026. Gobeithiwn eu bod wedi bod yn ddefnyddiol i randdeiliaid ac y byddant yn parhau i fod o fudd iddynt fel cofnod hanesyddol o ddatblygiadau nodedig drwy gydol y Chweched Senedd. Er hwylustod, fe'u rhestrir yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn.

[1] Yn dilyn penderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mehefin 2021, daeth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro (a sefydlwyd drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Mai 2021) yn Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

**4.** Law yn llaw â'r adroddiadau hyn, rydym wedi llunio adroddiadau blynyddol ar gyfer 2021/22[2], 2022/23[3], 2023/24[4] a 2024/25[5], sy'n dadansoddi'r gwaith rydym wedi'i wneud ac yn cynnig sylwadau arno.

**5.** Mae'r adroddiad gwaddol hwn, y gwnaethom gytuno arno yn ein cyfarfod olaf ar 23 Mawrth 2026[6], yn canolbwyntio ar y prif themâu sy'n deillio o'n gwaith yn y Chweched Senedd, a lle bo hynny'n briodol, mae'n awgrymu gwaith (drwy gyfrwng casgliadau) y gallai pwyllgor neu bwyllgorau olynol (a hefyd y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â materion gweithdrefnol a materion sy'n ymwneud â busnes y Senedd) fynd i'r afael ag ef. Mae ehangder yr awgrymiadau yn adlewyrchu ehangder cylch gorchwyl y Pwyllgor.

**6.** Gwnaethom godi ein cylch gorchwyl yn ein cyfraniad i Adolygiad Fforwm y Cadeiryddion o Effeithiolrwydd Pwyllgorau[7], gan ddweud:

> *"Fel y gwyddoch, mae cylch gwaith y Pwyllgor yn eithriadol o eang. Canlyniad y cylch gwaith eang hwn yw nad ydym yn credu bod y dull gweithredu yn gweithio fel y'i ffurfir ar hyn o bryd, oherwydd nid yw'n bosibl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r meysydd polisi sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac ar yr un pryd gyflawni ein rhwymedigaethau o dan y rheolau sefydlog yn briodol. Mae nifer y dogfennau, deddfwriaeth a phapurau cysylltiedig a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn enfawr ac mae maint y gwaith hwn yn effeithio ar y penderfyniadau y mae'n rhaid i ni eu gwneud."*

**7.** Gwnaethom hefyd dynnu sylw at effaith ein cylch gorchwyl ar ymgysylltu â dinasyddion, gan ddweud:

> *"Credwn fod llwyth gwaith deddfwriaethol y Pwyllgor wedi effeithio ar ein gallu i ymgysylltu â dinasyddion. Mae materion cyfansoddiadol yn hanfodol er mwyn deall swyddogaethau'r Senedd, ei phwrpas a sut mae'n gweithredu. Po fwyaf yw'r*


[2] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2021/22, Hydref 2022
[3] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2022/23, Tachwedd 2023
[4] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, Tachwedd 2024
[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2024/25, Tachwedd 2025
[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mawrth 2026
[7] Llythyr at Fforwm y Cadeiryddion, 15 Hydref 2025

> *ddealltwriaeth o'r Senedd, y mwyaf tebygol yw y bydd gan ddinasyddion hyder wrth ymgysylltu â'r Senedd a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd."*

**8.** Rydym yn adlewyrchu isod ein casgliad ynghylch ein cylch gorchwyl.

**Casgliad 1.** Yn y Seithfed Senedd, rydym o'r farn y byddai'n dda o beth ystyried dull gwahanol o ymdrin â'r ffordd y mae materion sy'n rhan o gylch gorchwyl presennol y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cael eu rhannu, fel bod mwy nag un pwyllgor yn y Senedd yn ymdrin â hwy, a hynny er mwyn sicrhau bod gwaith craffu'r pwyllgorau mor effeithiol â phosibl, yn enwedig wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Y Pwyllgor yn y Chweched Senedd



**FAINT O GYFARFODYDD PWYLLGOR FFURFIOL A GYNHALIWYD?**

**168**




**FAINT O EITEMAU O IS-DDEDDFWRIAETH A YSTYRIWYD?**

**810**




**FAINT O FILIAU A YSTYRIWYD?**

**30**



**FAINT O FEMERANDA CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL A YSTYRIWYD?**

**167**



**FAINT O GYTUNIADAU RHYNGWLADOL NAD YDYNT YN YMWNEUD Â MASNACH A YSTYRIWYD?**

**100**



**FAINT O ADRODDIADAU (HEBLAW ADRODDIADAU AR IS-DDEDDFWRIAETH) A GYNHYRCHWYD?**

**210**

# 2. Gwaith craffu ar ddeddfwriaeth


## Craffu ar is-ddeddfwriaeth

**9.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud, neu bydd yn gwneud, mwy nag 800 o eitemau o is-ddeddfwriaeth yn ystod y Chweched Senedd. O'r rheini, roedd 230 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn gymeradwyo; 398 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol neu'r weithdrefn annilysu; a 182 naill ai'n ddarostyngedig i weithdrefnau craffu eraill neu nid oeddent yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu.


**10.** Fel y pwyllgor cyfrifol at ddibenion Rheol Sefydlog 21, rhaid i ni ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd, a chyflwyno adroddiad arno. Wrth wneud hynny, rhaid i ni ystyried y pwyntiau a nodir yn Rheol Sefydlog 21.2, a chawn ystyried y pwyntiau a nodir yn Rheol Sefydlog 21.3. Cawn hefyd gyflwyno adroddiadau ar is-ddeddfwriaeth arall o dan Reol Sefydlog 21.7.

**11.** Yn ystod y Chweched Senedd, rydym wedi cyflwyno adroddiadau ar 686 o offerynnau statudol (gweler Ffigur 1 a Ffigur 2). Roedd yr adroddiadau hynny'n cynnwys mwy na 2,250 o bwyntiau adrodd, gan gynnwys: tua 1,500 o bwyntiau adrodd technegol o dan Reol Sefydlog 21.2, a thua 775 o bwyntiau craffu ar rinweddau o dan Reol Sefydlog 21.3.

***Ffigur 1: Cyfanswm (a chanran) yr offerynnau statudol y cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiadau arnynt yn ystod y Chweched Senedd, yn ôl gweithdrefn graffu'r Senedd.***



***Ffigur 2: Nifer yr offerynnau statudol y cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiadau arnynt fesul cyfnod Adrodd Blynyddol, yn ôl gweithdrefn graffu'r Senedd.***




**12.** Yn ystod y Chweched Senedd, digwyddodd moment arwyddocaol yn natblygiad cyfraith Cymru. Cafodd *Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025*[8] (Deddf 2025) y Cydsyniad Brenhinol ar 10 Gorffennaf 2025, a daeth llawer o newidiadau allweddol y Ddeddf honno i rym ar 1 Ionawr 2026. Ymhlith pethau eraill, mae Deddf 2025 yn diffinio "offeryn statudol Cymreig", yn newid y labeli a roddir i'r gweithdrefnau craffu sydd ynghlwm wrth offerynnau statudol Cymreig, ac yn ffurfioli'r gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol. Gwnaethom graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) fel yr oedd ar y pryd,[9] a gwnaethom osod ein hadroddiad ar 14 Chwefror 2025.[10]

[8] *Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025*, (dsc 3)
[9] Senedd Cymru, Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)
[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), Chwefror 2025

**13.** Mae nifer o ganlyniadau i Ddeddf 2025 wedi codi o ran ein gwaith a byddant felly'n berthnasol i waith pwyllgor cyfrifol olynol at ddibenion Rheol Sefydlog 21. Er enghraifft:

- Mae'r labeli a roddir i weithdrefnau craffu'r Senedd wedi newid. Mae'r weithdrefn gadarnhaol bellach yn weithdrefn gymeradwyo'r Senedd; mae'r weithdrefn negyddol bellach yn weithdrefn annilysu'r Senedd; ac mae'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' bellach yn weithdrefn gadarnhau'r Senedd.
- Ni fydd y 'weithdrefn negyddol ddrafft' yn cael ei defnyddio mwyach mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol Cymreig fel y'i diffinnir yn Neddf 2025 (mae unrhyw gyfeiriadau at y weithdrefn negyddol ddrafft mewn perthynas ag offerynnau statudol Cymreig sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth a ddeddfwyd cyn 1 Ionawr 2026 i'w darllen fel cyfeiriadau at weithdrefn annilysu'r Senedd at ddibenion gwaith craffu'r Senedd o 1 Ionawr 2026).
- Rhaid gosod pob offeryn statudol Cymreig gerbron y Senedd, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu.
- Mae Rheol Sefydlog 21.2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol a osodir gerbron y Senedd. O ganlyniad i'r trydydd pwynt bwled uchod, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol bellach gyflwyno adroddiad ar bob offeryn statudol Cymreig. Cyn 1 Ionawr 2026, gallai'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar is-ddeddfwriaeth nad oedd wedi'i gosod gerbron y Senedd, ond nid oedd rhaid iddo wneud hynny.
- Mae'r gofyniad i osod pob offeryn statudol Cymreig wedi amlygu'r ffaith efallai y bydd angen adolygu rhai Rheolau Sefydlog ymhellach[11] (Rheol Sefydlog 21.7(iv) yn benodol[12]).

---

[11] Diwygiwyd y Rheolau Sefydlog gan y Senedd yn sgil newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2025 yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Busnes, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2025. Gweler: y Pwyllgor Busnes, Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Ddeddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025, Hydref 2025

[12] Nid yw pwerau cychwyn fel arfer yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu yn y Senedd. Cyn cychwyn Deddf 2025, nid oedd rhaid gosod gorchmynion cychwyn gerbron y Senedd. Roedd Rheol Sefydlog 21.7(iv) yn galluogi'r pwyllgor cyfrifol i gyflwyno adroddiadau ar arfer y pwerau hynny, pe bai'n dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, o fis Ionawr 2026 ymlaen rhaid gosod pwerau cychwyn gerbron y Senedd, ac, o'r herwydd, rhaid cyflwyno adroddiad arnynt yn unol â

- Mae'r broses y mae Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Llywydd drwyddi am is-ddeddfwriaeth sy'n dod i rym cyn iddi gael ei gosod gerbron y Senedd wedi newid. Mae hyn yn effeithio ar ba mor brydlon y caiff y Llywydd ei hysbysu am is-ddeddfwriaeth o'r fath yn ystod cyfnodau pan nad yw'n bosibl cyflwyno dogfennau gerbron y Senedd, megis cyfnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu.[13]

**14.** Mae adran 42A o *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*[14], fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf 2025, yn gosod dyletswydd ar y Cwnsler Cyffredinol i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith Rhannau 2A (y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru) a 2B (cyhoeddi etc. ddeddfwriaeth Cymru), rhwng mis Ionawr 2028 a mis Ionawr 2029. Mae adran 42A(3) yn nodi y dylid ymgynghori â'r Llywydd, Clerc y Senedd ac "unrhyw berson arall y mae'r Cwnsler Cyffredinol yn ei ystyried yn briodol" fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

**Casgliad 2.** Yn sgil ein profiadau wrth ymateb i'r newidiadau a wneir gan *Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025*, a'n sylwadau uchod ynghylch canlyniadau annisgwyl posibl Deddf 2025 o ran gwaith y pwyllgor cyfrifol a'r Senedd yn ehangach, efallai y bydd y pwyllgor cyfrifol, at ddibenion Rheol Sefydlog 21 yn y Seithfed Senedd, am gynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o weithrediad Deddf 2025, er mwyn cyfrannu at yr adolygiad sy'n ofynnol o dan adran 42A o *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf 2025, neu fel arall. Gallai adolygiad o'r fath ystyried a oes angen newidiadau i ddeddfwriaeth a/neu i'r Rheolau Sefydlog er mwyn

---

Rheol Sefydlog 21.2. Felly, mae'n debyg mai dim ond o dan ystod gyfyngedig iawn o amgylchiadau y bydd Rheol Sefydlog 21.7(iv) yn berthnasol.

[13] Roedd adran 4(1) o *Ddeddf Offerynnau Statudol 1946* (p. 36) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Llywydd ar unwaith am unrhyw is-ddeddfwriaeth a oedd yn dod i rym cyn iddi gael ei gosod gerbron y Senedd. Roedd hyn yn gymwys ni waeth a oedd y Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad, ac roedd yn cynnwys offerynnau statudol a oedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a'r weithdrefn negyddol. Gwnaed darpariaeth ar wahân yn adran 11A o Ddeddf 1946 i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Llywydd, ar adeg ei gosod, am unrhyw is-ddeddfwriaeth a oedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a oedd yn dod i rym lai nag 21 diwrnod ar ôl iddi gael ei gosod. O ganlyniad i Ddeddf 2025, nid oes rhaid i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Llywydd mwyach am is-ddeddfwriaeth a wneir yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau'r Senedd sy'n dod i rym cyn iddi gael ei gosod. Ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn annilysu, y gofyniad yw bod rhaid i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Llywydd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gosod yr offeryn, os yw'n dod i rym lai nag 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Mae'r gofyniad i osod yr offeryn yn golygu na fydd rhaid hysbysu am hynny yn ystod cyfnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu pan nad yw'n bosibl gosod offeryn statudol; bydd hynny'n dod yn ofynnol unwaith y gosodir yr offeryn statudol pan ddaw'r diddymiad i ben. I bob pwrpas, mae hyn wedi cael gwared ar y gofyniad i hysbysu'r Llywydd ar unwaith o dan adran 4(1) o Ddeddf 1946 pan fo offeryn wedi dod i rym cyn iddo gael ei osod.

[14] *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*, (dccc 4)

sicrhau na fydd unrhyw effeithiau anfwriadol yn deillio o Ddeddf 2025 o ran gwaith craffu'r Senedd ar is-ddeddfwriaeth.

**15.** Ar rai adegau yn ystod y Chweched Senedd, rydym wedi bod yn bryderus ynghylch nifer y gwallau a'r anghysondebau mewn is-ddeddfwriaeth a nodwyd yn ein hadroddiadau. Rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar sawl achlysur i dynnu sylw at wallau ac anghysondebau mewn is-ddeddfwriaeth a ddygwyd gerbron y Senedd a sut y mae'r gwallau hynny'n cael eu cywiro, ac i godi pryderon ynghylch hynny:

- Ar 4 Mehefin 2024, gwnaethom ysgrifennu at Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni (y Cwnsler Cyffredinol), i ofyn am eglurder ynghylch y meini prawf penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid cywiro gwallau mewn offerynnau statudol cyn eu gwneud neu drwy slip cywiro.[15] Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol ar 26 Mehefin.[16]

- Ar 10 Tachwedd 2025, gwnaethom ysgrifennu at Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, ynghylch cyfanswm o 87 o bwyntiau adrodd a nodwyd gennym ar draws tri Chod.[17] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar 24 Tachwedd.[18]

- Ar 26 Ionawr 2026, gwnaethom ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru, i dynnu ei sylw at y ffaith bod gormod o wallau drafftio mewn is-ddeddfwriaeth Gymraeg.[19] Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol ar ran y Prif Weinidog ar 23 Chwefror.[20]

**16.** Weithiau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gywiro gwallau mewn is-ddeddfwriaeth a nodwyd yn ein hadroddiadau drwy is-ddeddfwriaeth bellach. Ym mis Ionawr 2025, gwnaethom gytuno i fonitro ymrwymiadau o'r fath. Rydym wedi ystyried dadansoddiadau wedi'u diweddaru o gywiriadau sy'n weddill i'w gwneud drwy offeryn statudol pellach, un fesul tymor y Senedd, ers mis Ionawr 2025. Ar ôl ystyried pob dadansoddiad, rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth

[15] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 4 Mehefin 2024
[16] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 26 Mehefin 2024
[17] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 10 Tachwedd 2025
[18] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 24 Tachwedd 2025
[19] Llythyr at Brif Weinidog Cymru, 26 Ionawr 2026
[20] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 23 Chwefror 2026

Cymru i rannu ein casgliadau ac i ofyn am ragor o wybodaeth am faterion penodol.[21] Nodir dadansoddiad alldro terfynol yn **Atodiad 2**.

**Casgliad 3.** Yn y Seithfed Senedd, gallai fod yn dda o beth pe bai'r pwyllgor cyfrifol, at ddibenion Rheol Sefydlog 21, yn parhau i fonitro'n rheolaidd pryd a sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig offerynnau statudol Cymreig newydd i gywiro gwallau mewn offerynnau statudol a nodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor yn ei adroddiadau i'r Senedd.

**17.** Awgrymodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd efallai y byddai'r Chweched Senedd yn gyfle i'r Pwyllgor hwn adolygu'r dull o graffu ar is-ddeddfwriaeth yn y Senedd.[22] Oherwydd cylch gorchwyl a llwyth gwaith y Pwyllgor hwn, ni fu'n bosibl gwneud hynny. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd y byddai'n dda o beth cynnal adolygiad o'r fath. Yn ystod ein gwaith craffu ar Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, gwnaethom drafod materion yn ymwneud â chraffu ar is-ddeddfwriaeth, ac rydym o'r farn y dylai unrhyw adolygiad ystyried ein hadroddiad ar y Bil hwnnw.[23]

**Casgliad 4.** Byddai'n dda o beth pe bai pwyllgor olynol sydd â chyfrifoldeb am Reol Sefydlog 21 yn cynnal adolygiad o'r dull a'r broses ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth yn y Senedd.

## Craffu ar Filiau

**18.** Rydym wedi ystyried cyfanswm o 30 o Filiau, sy'n cynnwys:

- 24 Bil Cyhoeddus a gyflwynwyd gan y Llywodraeth;
- 3 Bil Cydgrynhoi a gyflwynwyd gan y Llywodraeth; a
- 3 Bil Aelod.

[21] Senedd Cymru, Gwaith monitro parhaus ar offerynnau statudol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd, Mawrth 2021, paragraffau 103 a 104
[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), Chwefror 2025

**19.** Ni oedd y pwyllgor cyfrifol ar gyfer ystyried Biliau Cydgrynhoi[24], a gwnaethom ystyried egwyddorion cyffredinol un Bil Cyhoeddus a gyflwynwyd gan y Llywodraeth.[25] Gwnaethom ymdrin â Biliau eraill drwy ystyried materion yn ymwneud â'r canlynol: cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; yr angen am ddeddfwriaeth; rhychwant dirprwyo pwerau yn y Bil a gweithdrefn y Senedd a gymhwyswyd i arfer y pwerau hynny; a materion eraill mewn perthynas ag ansawdd y Bil fel darn o ddeddfwriaeth.

**20.** Roedd sawl un o'r Biliau Cyhoeddus a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Senedd hon – gan ddechrau â Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)[26] – yn rhai fframwaith. Mae Biliau o'r fath yn cymryd pŵer oddi wrth y Senedd ac yn ei roi i Weinidogion Cymru, ac nid yw eu defnyddio yn arfer deddfwriaethol da. Mynegodd ein gwaith craffu ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) bryder ei fod yn cynnwys pŵer Harri'r Wythfed helaeth i ddiwygio Deddfau'r Senedd sydd eisoes yn bodoli ar faterion treth drwy reoliadau, ac arweiniodd hynny at gynnwys darpariaethau adolygu a machlud mewn perthynas ag arfer y pŵer gwneud rheoliadau hwnnw.[27] Daeth adolygiad Gweinidogion Cymru o'r Ddeddf, fel y mae erbyn hyn, i ben ym mis Chwefror 2026.[28] Yna, gwnaeth Gweinidogion Cymru reoliadau ar 18 Mawrth 2026[29], wedi i'r Senedd gymeradwyo rheoliadau drafft ar 17 Mawrth 2026[30], i ddiwygio'r ddarpariaeth fachlud i ddarparu y caiff y pŵer gwneud rheoliadau barhau mewn grym am gyfnod pellach hyd at y dyddiad olaf a ganiateir, sef 30 Ebrill 2031.

**Casgliad 5.** Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylid defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru.

**21.** Gwnaeth yr Athro Richard Whitaker, o Brifysgol Caerlŷr, ymchwil academaidd ar ein rhan ar ddefnyddio deddfwriaeth fframwaith yn y Senedd ac yn neddfwrfeydd eraill y DU. Roedd ei ganfyddiadau'n drawiadol: erbyn mis Mai 2024, pan gyflwynodd ei ganfyddiadau i ni, roedd cyfran sylweddol uwch o

---

[24] Mae Rheol Sefydlog 26C.12 yn nodi bod rhaid i'r Pwyllgor Busnes, wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau, sicrhau bod pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am y swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 26C.
[25] Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)
[26] Senedd Cymru, Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)
[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil Ddeddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu), Ebrill 2022, argymhellion 1 a 2; *Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022* (dsc 2), adrannau 6 a 7
[28] Llywodraeth Cymru, Adolygiad Gweinidogion Cymru o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022, 13 Chwefror 2026
[29] Rheoliadau Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (Estyn Dyddiad Dod i Ben) 2026
[30] Y Cyfarfod Llawn, 17 Mawrth 2026, Cofnod y Trafodion [192 i 213]

ddeddfwriaeth fframwaith wedi'i chyflwyno yn y Chweched Senedd (43 y cant o'r holl Filiau) o gymharu â Senedd yr Alban (10 y cant) a Senedd y DU (9 y cant) yn ystod cyfnod tebyg.[31]

**22.** Serch hynny, yn ystod y Chweched Senedd, rydym wedi gweld nifer y Biliau fframwaith a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn lleihau, ac mae hynny i'w groesawu.

**23.** Fel Pwyllgor, rydym hefyd wedi mynegi pryder fod Biliau yn cael eu rhuthro drwy'r Senedd heb lawer o gyfiawnhad dros wneud hynny. Ar gais Llywodraeth Cymru, ni chyfeiriwyd Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)[32] at bwyllgor er mwyn craffu ar ei egwyddorion cyffredinol, a hynny am fod angen rhoi gwaharddiad ar gynhyrchion plastig untro yng Nghymru ar waith ar frys, ac oherwydd – ar y pryd – mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd defnyddio'r Bil fel achos prawf mewn perthynas â'i her gyfreithiol i *Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*.[33]

**24.** Gall cwtogi ar waith craffu fel hyn arwain at ganlyniadau anfwriadol ac o bosibl at ddeddfwriaeth nad yw'n gyfan gwbl effeithiol o ran cyflawni'r holl amcanion polisi a fwriedir. Mewn ymateb i'n pryderon, a'r pryderon a godwyd gan Bwyllgorau eraill, cytunodd y Pwyllgor Busnes ym mis Ebrill 2024 ar feini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau, er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol ar amserlenni Biliau pan ofynnir am gyfnod craffu cyflym.[34] Defnyddiodd y Pwyllgor Busnes y meini prawf hynny wrth ystyried amserlen ar gyfer y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), a chanlyniad hynny oedd iddo wrthod cais Llywodraeth Cymru am gyfnod craffu byrrach, a derbyn ein cais ninnau am gyfnod craffu llawn er mwyn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil.[35] Gobeithiwn y bydd Pwyllgor Busnes y Senedd nesaf yn mabwysiadu meini prawf tebyg.

**Casgliad 6.** Rydym yn cefnogi defnydd Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd o feini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau wrth ystyried ceisiadau gan Lywodraeth Cymru am waith craffu cyflym ar Filiau, ac rydym o'r farn y byddai'n dda o beth pe bai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn mabwysiadu dull o'r fath.

[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Mai 2024, Papur 16 – Papur ymchwil yr Athro Richard Whitaker
[32] *Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023* (dsc 2)
[33] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), Hydref 2022
[34] Y Pwyllgor Busnes, 23 Ebrill 2024, Cofnodion, eitem 5.1
[35] Y Pwyllgor Busnes, 8 Hydref 2024, Cofnodion, eitem 4.1

**25.** Ym mis Mai 2025, gwnaethom gyflwyno gwybodaeth i adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod.[36] Yn benodol, gwnaethom nodi ein bod o'r farn y dylai Rheolau Sefydlog y Senedd gynnwys cyfnod o 12 wythnos eistedd o leiaf ar gyfer craffu ar bob Bil yng Nghyfnod 1, ac y dylai fod angen penderfyniad gan y Senedd er mwyn cwtogi'r cyfnod hwnnw.

**Casgliad 7.** Dylai Rheolau Sefydlog y Senedd ddarparu y rhoddir o leiaf 12 wythnos eistedd i bwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol Bil yng Nghyfnod 1.

**26.** Dau Fil Cydgrynhoi oedd y Biliau olaf a ystyriwyd gennym yn y Senedd hon – y Bil Cynllunio (Cymru)[37] a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)[38] – a gyflwynwyd gyda'i gilydd ym mis Hydref 2025. Roedd y gwaith craffu hwn yn dilyn ein hystyriaeth o'r Bil Cydgrynhoi cyntaf erioed i'w gyflwyno yn y Senedd, sef y Bil[39] a ddaeth yn *Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023*.[40] Wedi i ni ystyried y Bil hwnnw, gwnaethom alw am adolygiad llawn o'r Rheolau Sefydlog sy'n sail i waith craffu ar Filiau Cydgrynhoi, ond dim ond ar ôl i'r Senedd ystyried ail Fil Cydgrynhoi.[41] Gobeithiwn y bydd Pwyllgor Busnes y Senedd nesaf yn cynnal adolygiad o'r fath cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod Comisiwn y Gyfraith, ym mis Chwefror 2026, wedi cynnig cod cyfraith amaethyddol arfaethedig i Gymru, a fyddai'n cynnwys pedair Deddf gan y Senedd a fyddai naill ai'n cydgrynhoi neu'n diwygio'n sylweddol ddeddfwriaeth sylfaenol yn y maes hwn.[42]

**Casgliad 8.** Yn y Seithfed Senedd, byddai'n dda o beth pe bai'r Pwyllgor Busnes neu bwyllgor sydd â chyfrifoldeb am weithdrefnau'r Senedd yn adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer Biliau Cydgrynhoi cyn gynted â phosibl.

**27.** Yn ein barn ni, mae ein gwaith craffu wedi arwain at wella Biliau wrth iddynt fynd drwy'r Senedd.

**28.** Er enghraifft, gwnaethom nifer o argymhellion mewn perthynas â'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)[43], a derbyniodd

[36] Y Pwyllgor Busnes, Adolygiad o'r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod, PBMB16 Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
[37] Senedd Cymru, Bil Cynllunio (Cymru)
[38] Senedd Cymru, Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)
[39] Senedd Cymru, Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
[40] *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023* (dsc 3)
[41] Ar gais gennym, cynhaliodd y Pwyllgor Busnes adolygiad cyfyngedig o weithdrefnau Biliau Cydgrynhoi yn ystod hydref 2023. Cyflwynodd adroddiad ar ei adolygiad ym mis Ionawr 2024.
[42] Comisiwn y Gyfraith, Cyfraith amaethyddol yng Nghymru: Adroddiad cwmpasu, Chwefror 2026
[43] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru), Ebrill 2025

Llywodraeth Cymru nifer sylweddol ohonynt[44]. Gan fod yr argymhellion hyn wedi'u derbyn, cafodd y Bil ei wella, gan gynnwys gosod dyletswydd ar Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru i lunio cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni nas defnyddir Categori 1 a 2.[45]

**29.** Enghraifft arall yw bod ein hystyriaeth o'r Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)[46] yn yr un modd wedi arwain at wella Bil yn sylweddol yn ystod y cyfnodau diwygio. Derbyniodd Llywodraeth Cymru, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, yr holl argymhellion a wnaethom mewn perthynas â'r Bil.[47] Yn sgil hynny, derbyniodd y Senedd welliannau i adlewyrchu pwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu â phreswylwyr, i gyfyngu ar gwmpas y pwerau gwneud rheoliadau a ddirprwyir i Weinidogion Cymru yn y Bil, ac i gynnwys diffiniad o pryd y mae llawr mesanîn i'w ystyried yn "llawr" mewn cysylltiad ag adeiladau rheoleiddiedig.[48]

**30.** Nodwn fod Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, ym mis Mai 2025, wedi crynhoi'r safonau deddfwriaethol a nodwyd gan y Pwyllgor hwnnw wrth iddo graffu ar ddeddfwriaeth.[49] Ymhlith y safonau hynny mae pwysigrwydd craffu cyn deddfu, anfodlonrwydd ar ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys pwerau dirprwyedig eang, a'r angen am ddeddfwriaeth heb amwysedd nac ansicrwydd.[50] Credwn y byddai'n dda o beth pe bai pwyllgor olynol yn manteisio ar y cyfle i nodi'r safonau y mae'n dymuno i ddeddfwriaeth sylfaenol lynu wrthynt, er mwyn hwyluso gwaith craffu effeithiol.

**Casgliad 9.** Efallai y bydd pwyllgor olynol am ystyried mabwysiadu cyfres o safonau deddfwriaethol y mae o'r farn y dylai Biliau a gyflwynir yn y Senedd lynu wrthynt fel arfer.

## Craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol

**31.** Nododd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn ei adroddiad gwaddol ei fod wedi ystyried 48 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol mewn perthynas â 32 o Filiau'r DU. Roedd hynny gryn

[44] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2025
[45] *Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025* (dsc 4), adran 57
[46] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru), Tachwedd 2025
[47] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 19 Rhagfyr 2025
[48] Senedd Cymru, Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru), fel y'i pasiwyd, adrannau 119, 15, 17, a 6(5)
[49] Tŷ'r Arglwyddi, Legislative standards of the Constitution Committee: 2017–2024, 6 Mai 2025 (Saesneg yn unig)
[50] Tŷ'r Arglwyddi, Legislative standards of the Constitution Committee: 2017–2024, 6 Mai 2025, paragraffau 10, 29 a 79 (Saesneg yn unig)

dipyn yn fwy na'r nifer a ystyriwyd gan y Pwyllgor a'i rhagflaenodd yn y Pedwerydd Cynulliad.[51] Mynegodd yr adroddiad bryder ynghylch i ba raddau yr oedd cyfraith sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig yn cael ei gwneud yn Senedd y DU, a daeth i'r casgliad y dylai'r pwyllgor perthnasol yn y Chweched Senedd fonitro'r sefyllfa a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei gweithredoedd.[52]

**32.** Yn gynnar yn y Chweched Senedd, ystyriodd y Pwyllgor femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd. Roedd y memorandwm yn dweud ei bod yn "synhwyrol ac yn fanteisiol o dan rai amgylchiadau ac ar ôl cael cydsyniad y Senedd, i ofyn am ddarpariaethau ym Miliau Senedd y DU a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."[53] Mewn sesiwn dystiolaeth ar y Bil wedi hynny, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James AS, wrthym:

> *"… if we only use Senedd legislation, we just wouldn't get everything done; it's just as simple as that, really."*[54]

**33.** Gwaith craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol mewn perthynas â Biliau'r DU a oedd yn cynnwys darpariaeth a oedd yn rhoi sylw i faterion datganoledig, a chyflwyno adroddiadau ar y memoranda hynny, oedd cyfran helaeth o raglen waith y Pwyllgor yn ystod chwe mis cyntaf y Chweched Senedd. Yn sgil hynny, cynhaliodd aelod o'r Pwyllgor ddadl ar y materion hyn ym mis Rhagfyr 2021.[55]

**34.** O'r herwydd, drwy gydol y Chweched Senedd, rydym wedi parhau i ymddiddori'n fawr yn y defnydd a wneir o Filiau a gyflwynwyd yn Senedd y DU sydd wedi ceisio gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

---

[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd, Mawrth 2021, paragraff 117


[52] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd, Mawrth 2021, paragraff 29 a chasgliad 7. Gweler hefyd: Llythyr at Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd, 23 Mawrth 2021

[53] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd, Mehefin 2021, paragraff 86

[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Gorffennaf 2021. Cofnod y Trafodion [52]. Gweler hefyd: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, Medi 2021, paragraffau 11 a 19

[55] Y Cyfarfod Llawn, Dadl Aelod o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Y broses cydsyniad deddfwriaethol, 15 Rhagfyr 2021, Cofnod y Trafodion [177 i 248]


## Cydsyniad deddfwriaethol yn y Chweched Senedd



SENEDD Y DU

**76**

BIL YN GWNEUD DARPARIAETH YN YMWNEUD Â MATERION DATGANOLEDIG



SENEDD CYMRU

CYNIGION CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

**48** DERBYNIWYD

**12** GWRTHODWYD

**3** DERBYNIWYD 3 YN RHANNOL



**1718**

CEISIWYD CYDSYNIAD AR 1718 O GYMALAU




**127**

ADRODDIAD PWYLLGOR AR FEMORANDA CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

**35.** Rydym wedi parhau i gyflwyno adroddiadau ar nifer sylweddol o'r memoranda hyn: o'r 202 o femoranda a oedd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru ar adeg gosod yr adroddiad hwn, rydym wedi cyflwyno adroddiadau ar 167 ohonynt, mewn 127 o adroddiadau. Gosodwyd y memoranda hyn mewn perthynas â 76 o Filiau a gyflwynwyd yn Senedd y DU.[56] Mae Ffigur 3 yn cymharu nifer Biliau Senedd y DU a oedd yn ddarostyngedig i'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn ôl Cynulliad/Senedd.[57]

***Ffigur 3: Nifer Biliau Senedd y DU a oedd yn ddarostyngedig i'r broses cydsyniad deddfwriaethol.***




**36.** Rydym wedi dod i'r casgliad bod diffyg democrataidd wedi dod i'r amlwg yng Nghymru yn ystod y Chweched Senedd o ganlyniad i ddefnyddio cynifer o Filiau a gyflwynwyd yn Senedd y DU sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Nodir isod rai o'r rhesymau dros y farn honno:

- Mae'n bosibl nad ymgynghorwyd â rhanddeiliaid yng Nghymru naill ai drwy Bapur Gwyn neu drwy ymgynghoriad polisi mwy cyffredinol. Mae hyn yn arbennig o wir pan fanteisir ar y cyfle i gynnwys neu ychwanegu

[56] Nid oedd digon o amser i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Cynrychiolaeth y Bobl, a osodwyd ar 13 Mawrth 2026.
[57] Ni wnaeth y Pwyllgorau a'n rhagflaenodd ystyried pob memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a phob memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol a osodwyd yn ystod y Cynulliad perthnasol/y Senedd berthnasol.

darpariaethau sy'n rhoi sylw i fater datganoledig mewn Bil a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer Lloegr.

- Pan fydd Llywodraeth Cymru yn llunio Bil i'w gyflwyno yn y Senedd, bydd y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys gwybodaeth am ystod o asesiadau effaith a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r polisi (megis ar iechyd, hawliau plant, cydraddoldeb a'r Gymraeg), yn ogystal â dadansoddiad llawn o'r costau a'r manteision. Mae'r wybodaeth hon yn fuddiol o ran craffu ond nid yw'n cael ei darparu mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â Biliau a gyflwynir yn Senedd y DU sy'n cynnig deddfu gan roi sylw i fater datganoledig, a hynny weithiau i raddau eithaf helaeth.

- Nid oes cyfle i Aelodau o'r Senedd ymgysylltu â rhanddeiliaid fel y byddent yn ei wneud yn ystod gwaith craffu ar Fil yng Nghyfnod 1, na chymryd rhan mewn dadl ar ei egwyddorion cyffredinol, na phrocio, herio neu geisio newid darpariaethau drwy gyflwyno gwelliannau yn ystod trafodion Cyfnodau 2 a 3. Felly, mae llai o gyfleoedd i ddylanwadu ar y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru mewn maes datganoledig.

- O'n safbwynt ni, mae'r amser sydd ar gael i ystyried yn fanwl y materion hynny y mae gennym ddiddordeb penodol ynddynt yn gyfyngedig; er enghraifft, o ran y pwerau gwneud rheoliadau a ddirprwyir i Weinidogion Cymru mewn Bil gan Lywodraeth y DU i'w defnyddio yn y dyfodol (eu rhychwant, sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu defnyddio a sut y gallai llywodraethau yn y dyfodol eu defnyddio, ac a yw lefel y manylder ar wyneb y Bil yn briodol). Er y gallem fod wedi argymell – a'n bod weithiau wedi argymell – gwelliannau i ymdrin â'r materion hyn, mae hynny'n dibynnu ar Lywodraeth Cymru i ddadlau dros ein hargymhellion gyda Llywodraeth y DU.[58]

- Mae Llywodraeth Cymru, drwy ddefnyddio Bil a gyflwynwyd yn Senedd y DU i ddeddfu gan roi sylw i fater datganoledig, yn ildio'r rheolaeth weithredol y byddai'n disgwyl ei chael dros Fil a gyflwynir ganddi yn y Senedd.[59]

---

[58] Am drafodaeth ar y pwynt hwn, gweler: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig), Ionawr 2025, paragraffau 103 i 106

[59] Gweler er enghraifft, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Memorandwm

- Nid yw penderfyniad deuaidd – cytuno neu anghytuno – ynghylch cynnwys darpariaethau sydd o bosibl yn arwyddocaol yn un o Filiau'r DU sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig yn gwneud y tro yn lle gwaith craffu'r Senedd y cyfeiriwn ato uchod.

**Casgliad 10.** Er bod rhai amgylchiadau pan fo'n gwneud synnwyr defnyddio Bil gan Lywodraeth y DU i wneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, mae'r defnydd helaeth o Filiau o'r fath wedi creu diffyg democrataidd ac wedi atal Aelodau o'r Senedd, rhanddeiliaid a'r cyhoedd rhag cael llais wrth geisio llunio'r gyfraith sy'n effeithio ar fywydau beunyddiol dinasyddion Cymru, a dylanwadu ar y gyfraith honno.

**Casgliad 11.** Rydym o'r farn, fel egwyddor gyffredinol, mai deddfu drwy Fil a gyflwynir yn y Senedd yw'r ffordd o gyflawni canlyniadau sydd er lles pennaf Cymru.

**37.** Mae ein hadroddiadau blynyddol yn crynhoi ein prif bryderon ynghylch defnyddio Biliau penodol a gyflwynwyd yn Senedd y DU; mae hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, defnyddio Biliau Llywodraeth y DU i wneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ym meysydd hawliau rhentwyr[60], iechyd meddwl[61] a dŵr[62].

**38.** Rydym hefyd wedi nodi rhai pryderon ymarferol ynghylch y broses cydsyniad deddfwriaethol. Yn eu plith mae:

- tryloywder ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol[63];
- oedi wrth osod memoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol[64], er ein bod yn croesawu cael gwybod

---

Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mawrth 2026, paragraffau 29 i 30

[60] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiadau ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Hawliau Rhentwyr, Ionawr a Mawrth 2025

[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiadau ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Iechyd Meddwl, Ebrill i Hydref 2025

[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig), Ionawr 2025

[63] Gweler er enghraifft, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban), Gorffennaf 2025 a'r ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Troseddu a Phlismona, y Cyfarfod Llawn, 10 Mawrth 2026, Cofnod y Trafodion [263 i 270]

[64] Er enghraifft, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni, Medi 2023 a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder

ymlaen llaw gan Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion am unrhyw oedi, a'r rhesymau dros yr oedi.[65]

**39.** Rydym hefyd wedi mynegi pryderon[66] ynghylch *Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Filiau'r DU*[67] a'r diwygiadau diweddarach iddynt.[68] Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 yn rhoi sylwadau ar rai o'n pryderon diweddaraf, gan gynnwys defnyddio pwerau cydredol (pwerau gwneud rheoliadau i'w harfer gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU).[69] Daeth i'r casgliad a ganlyn:

> *"Ymddengys i'r Pwyllgor, yn seiliedig ar y dystiolaeth a glywsom dros y cyfnod adrodd hwn, nad oes unrhyw 'linellau coch' a fyddai'n atal Llywodraeth Cymru rhag defnyddio Bil Llywodraeth y DU, sy'n eithrio Aelodau'r Senedd rhag gallu cyflawni eu dyletswyddau craffu fel deddfwyr, rôl y maent wedi'u hethol ar ei chyfer.*
>
> *O ganlyniad i beidio â gallu canfod sefyllfa lle byddai'r egwyddorion wedi'u hadnewyddu yn atal Bil y DU rhag cael ei ddefnyddio, mae'n ymddangos i'r Pwyllgor hefyd fod yr egwyddorion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u mabwysiadu yn fwy o offeryn i'w galluogi i gyfiawnhau defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig."*[70]

**40.** Rydym hefyd wedi cwestiynu ai oherwydd bod problemau o ran capasiti yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cynifer o Filiau a gyflwynwyd yn Senedd y DU i ddeddfu, yn hytrach na'i Biliau ei hun a gyflwynir yn y Senedd. Gwnaethom ofyn y cwestiynau hyn i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd, Mick Antoniw AS, ac

a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), Mai 2024

[65] Er enghraifft, Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 30 Hydref 2024

[66] Gweler y sylwadau yn ein Hadroddiadau Blynyddol

[67] Llythyr oddi wrth Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd, 22 Hydref 2021

[68] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 4 Rhagfyr 2024; Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig, 13 Rhagfyr 2024

[69] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2024/25, Tachwedd 2025, paragraffau 37 i 39 ac 88 i 94

[70] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2024/25, Tachwedd 2025, paragraffau 93 i 94

Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Dr Andrew Goodall CBE, ar 10 Hydref 2022[71] a chyfnewid gohebiaeth bellach ar ôl y sesiwn dystiolaeth hon.[72]

**41.** Wedi hynny, yn ein hadroddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) ym mis Mai 2024, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd y mae'n defnyddio ei hadnoddau, gyda'r bwriad o sicrhau bod ganddi'r capasiti i ddeddfu'n llawn drwy gyflwyno Biliau yn y Senedd a lleihau ei dibyniaeth ar Filiau'r DU.[73] Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio ar y pryd, Julie James AS, nad oedd "yn cytuno â'r rhagdybiaeth fod Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Filiau'r DU".[74]

**42.** Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyfrifon Cyfunol ar gyfer 2023-24, a chyfeiriodd at adolygiad o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn datblygu deddfwriaeth.[75] Trafodwyd yr adolygiad mewn sesiynau tystiolaeth gyda Gweinidogion ar 9 Rhagfyr 2024[76] a 9 Mehefin 2025[77]. Wedi hynny, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Mark Isherwood AS, atom yn tynnu sylw at lythyr a anfonwyd at y Pwyllgor hwnnw gan yr Ysgrifennydd Parhaol, a oedd yn rhoi gwybodaeth am y cynlluniau i wella'r modd y cefnogir datblygu a chyflawni deddfwriaeth yn Llywodraeth Cymru.[78]

**43.** Rydym wedi parhau i godi pryderon mewn adroddiadau[79] a sesiynau tystiolaeth gyda Gweinidogion[80] ynghylch capasiti Llywodraeth Cymru fel ffactor o

---

[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion [3 i 123]
[72] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, 20 Hydref 2022; Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, 9 Tachwedd 2022. Gweler hefyd: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2022/23, Tachwedd 2023, paragraffau 44 i 55
[73] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio), Mai 2024, argymhelliad 10
[74] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 21 Mehefin 2024
[75] Cyfrifon Blynyddol Cyfunol Llywodraeth Cymru 2023-24
[76] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [27]
[77] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [181 i 182]
[78] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Mawrth 2026
[79] Er enghraifft, gweler ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Rhentwyr, Ionawr 2025
[80] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [3 i 184]; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Mehefin 2024, Cofnod y Trafodion [177 i 188]

ran defnyddio Biliau a gyflwynwyd yn Senedd y DU i ddeddfu gan roi sylw i fater datganoledig. Rydym hefyd wedi herio haeriadau na ellir cyflawni Bil a gyflwynir yn y Senedd o fewn yr un amserlen â phe defnyddid Bil gan Lywodraeth y DU a gyflwynir yn Senedd y DU.[81] Nodwn hefyd fod materion ynghylch capasiti wedi'u codi gyda'r Prif Weinidog gan Gadeiryddion pwyllgorau'r Senedd.[82] Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r pryderon hyn wedi bod yn gymysg; mae rhai ymatebion fel pe baent yn cydnabod materion o ran capasiti, ond mae eraill fel pe baent yn awgrymu nad yw capasiti yn broblem, ac, yn hytrach, mai mater o bragmatiaeth yw hyn.[83]

**44.** Yn ystod ein gwaith craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol, rydym wedi galw ar y Pwyllgor Busnes i adolygu Rheol Sefydlog 29.1 ac, yn fwy cyffredinol, i gynnal adolygiad gweithdrefnol llawn o Reol Sefydlog 29 i sicrhau ei bod yn addas at y diben.[84] Mae hynny oherwydd, yn ein barn ni, y ceisir cydsyniad ar gyfer darpariaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ar raddfa nad oedd o bosibl wedi'i rhagweld pan ddrafftiwyd y Rheol Sefydlog yn wreiddiol. Er bod Rheol Sefydlog 29.1 wedi'i diwygio[85], ni fu'n bosibl cynnal adolygiad llawn o Reol Sefydlog 29.

**Casgliad 12.** Yn y Seithfed Senedd, rydym o'r farn y byddai'n dda o beth pe bai'r Pwyllgor Busnes neu bwyllgor sydd â chyfrifoldeb am weithdrefnau'r Senedd yn cynnal adolygiad llawn o Reol Sefydlog 29 i sicrhau ei bod yn addas at y diben.

**45.** Mater arall sy'n destun pryder a nodwyd gennym yw pasio Biliau heb gydsyniad yn ystod y cyfnod cau pen y mwdwl cyn diddymu Senedd y DU.[86]

**46.** Ar ddiwedd y Senedd hon, rydym hefyd wedi cwestiynu amseriad dadleuon ar gynigion cydsyniad deddfwriaethol, oherwydd pryder y gellid gofyn i'r Senedd wneud penderfyniad ar gydsyniad heb eglurder ynghylch pa gymalau yn union y

---

[81] Gweler paragraffau 78 i 79 yn: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2024/25, Tachwedd 2025, ynghylch deddfwriaeth hawliau rhentwyr a hefyd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Medi 2025, paragraffau 62 i 63 ac argymhelliad 1
[82] Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, 28 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion [72 i 82]
[83] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [16]; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [172]; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [54]; y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, 28 Mawrth 2025, Cofnod y Trafodion [82]; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [183]
[84] Llythyr at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes, 5 Mehefin 2024
[85] Gweler y drafodaeth ym mharagraffau 62 i 64 yn: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, Tachwedd 2024
[86] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, Tachwedd 2024, paragraff 51

gofynnir i'r Aelodau gydsynio iddynt.[87] Ar 10 Mawrth 2026, ni dderbyniwyd cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Troseddu a Phlismona.[88] Nid yw'n glir o hyd sut y bydd Llywodraeth y DU[89] a Senedd y DU yn ystyried penderfyniad y Senedd, yn enwedig gan fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno ynghylch pa gymalau yn y Bil yr oedd angen cydsyniad ar eu cyfer.[90]

**47.** Mae ein gwaith craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol hefyd wedi amlygu nifer o faterion cyfansoddiadol pwysig a chysylltiedig.

**48.** Er enghraifft, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2019[91] ei bod yn bwriadu gweithredu "pecyn" o ddiwygiadau diogelwch adeiladau ar gyfer Cymru (sy'n fater datganoledig) i'w cyflawni drwy Fil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth y DU i ymdrin â'r ffrwd waith gyntaf (y cyfnod dylunio ac adeiladu) ac yna drwy Fil gan Lywodraeth Cymru[92] i ymdrin â'r ail ffrwd waith (y cyfnod meddiannu). Dadleuodd Llywodraeth Cymru mai defnyddio deddfwriaeth y DU i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru oedd y ffordd fwyaf effeithiol o ymateb cyn gynted â phosibl i drychineb Grenfell yn 2017.[93] Fodd bynnag, ni chafodd y Bil Diogelwch Adeiladau y Cydsyniad Brenhinol tan 28 Ebrill 2022, bron i dair blynedd ar ôl cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch diwygiadau diogelwch adeiladau. O gymharu, mae fel arfer yn cymryd tua 8 mis i Fil Llywodraeth Cymru gael y Cydsyniad Brenhinol ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Daethom i'r casgliad fod dull gweithredu Llywodraeth Cymru wedi effeithio'n andwyol ar hygyrchedd cyfraith Cymru drwy ychwanegu at gymhlethdod deddfwriaeth diogelwch adeiladau a'i fod wedi cyfyngu ar rôl graffu'r Senedd, heb gynnig unrhyw fanteision o ran hwylustod ymateb Llywodraeth Cymru i dân Grenfell yn 2017.[94]

[87] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), Ionawr 2026; Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 9 Mawrth 2026
[88] Y Cyfarfod Llawn, 10 Mawrth 2026, Cofnod y Trafodion [342]
[89] Y Cyfarfod Llawn, 18 Mawrth 2026, Cofnod y Trafodion [154 i 159]
[90] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona, Mehefin 2025; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Troseddu a Phlismona, Tachwedd 2025
[91] Y Cyfarfod Llawn, 21 Mai 2019, Cofnod y Trafodion [330]
[92] Senedd Cymru, Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)
[93] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 17 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion [10]
[94] Gweler: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiadau ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Diogelwch Adeiladau, Rhagfyr 2021 a Mawrth 2025 a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru), Tachwedd 2025

**49.** Enghraifft arall yw i aelod o'r Pwyllgor hwn, Adam Price AS, hefyd godi pryderon ynghylch saernïaeth y setliad datganoli mewn dadl ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes).[95]

**50.** Rydym hefyd yn ymwybodol o adroddiad diweddar gan Brifysgol Glasgow sy'n dadansoddi dau ddyfarniad gan y Goruchaf Lys y dadleuir y gallent, o bosibl, effeithio ar ddeddfu datganoledig yn yr Alban, a thrwy oblygiad yng Nghymru.[96]

**51.** Tynnodd adroddiad gwaddol y Pwyllgor a'n rhagflaenodd sylw at bwysigrwydd ceisio dod i gyd-ddealltwriaeth ynghylch cymhwysiad Confensiwn Sewel y gall holl ganghennau gweithredol a deddfwriaethol y DU gytuno arni.[97] Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Confensiwn. Mae'n gweld y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn "gyfle pwysig i helpu i ddiogelu gweithrediad effeithiol y Confensiwn ac i sefydlu cynsail cryfach, parhaus ar gyfer parchu'r deddfwrfeydd datganoledig", ac mae'n "parhau i fod yn awyddus i weld cytundeb ynghylch Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a bod hwnnw yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl".[98]

**52.** Mae'r materion hyn yn amlygu cymhlethdod y setliad datganoli presennol a'i effaith ar ddeddfu. Rydym o'r farn y byddai'n dda o beth cynnal adolygiad o effaith y setliad datganoli ar allu'r Senedd i ddeddfu ar gyfer Cymru, a allai hefyd gynnwys cymhwysiad Confensiwn Sewel.

**Casgliad 13.** Byddai'n dda o beth pe bai pwyllgor olynol sydd â chyfrifoldeb am y cyfansoddiad yn cynnal adolygiad o effaith y setliad datganoli ar allu'r Senedd i ddeddfu ar gyfer Cymru. Fel arall, gallai'r Senedd roi'r dasg hon i Bwyllgor diben arbennig, o ystyried hyd a lled posibl y gwaith.

## Hygyrchedd a chymhlethdod cyfraith Cymru

**53.** Fel sy'n ofynnol gan *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*, ar ddechrau'r Senedd hon, nododd Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru;[99] rhaglen a ddiwygiwyd yn ddiweddarach, ym mis

[95] Y Cyfarfod Llawn, 24 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion [600 i 606]
[96] Prifysgol Glasgow, y Ganolfan Polisi Cyhoeddus, Conditioning Power: Devolved Law-Making after the Supreme Court's s.28(7) Rulings, 5 Chwefror 2026 (Saesneg yn unig)
[97] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd, Mawrth 2021, paragraffau 30 i 34 a chasgliad 8
[98] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 16 Mawrth 2026
[99] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd 2021 i 2026, Medi 2021

Ionawr 2024[100]. Rydym wedi trafod adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen wrth iddynt gael eu gosod, ac wedi codi materion perthnasol sy'n deillio o'r adroddiadau hyn gyda'r Cwnsler Cyffredinol.

**54.** Drwy ein gwaith craffu ar y Biliau Cydgrynhoi ar gyfraith cynllunio, amlygwyd y ffaith y byddai Llywodraeth Cymru, yn ystod blwyddyn olaf y Senedd, yn adolygu ac yn diwygio'r dacsonomeg ddrafft bresennol o bynciau (a ddisgrifir hefyd fel tacsonomeg ddrafft ar gyfer codau cyfraith Cymru) er mwyn pennu pa ddeddfiadau mewn meysydd datganoledig o'r gyfraith a ddylai berthyn i bob haen o'r dacsonomeg. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at y ffaith y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda thîm yr Archifau Cenedlaethol i ddarparu nodweddion ychwanegol ar legislation.gov.uk er mwyn i ddefnyddwyr allu gweld cyfraith Cymru yn ôl pwnc.[101]

**55.** Mewn ymateb i'n cais am y wybodaeth ddiweddaraf am y dacsonomeg ddrafft o bynciau ym mis Hydref 2025, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai diweddariadau ar raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn cael eu rhoi yn yr adroddiad blynyddol nesaf – y cawsom wybod y byddai'n cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2025.[102] Ar yr adeg y cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad hwn, nid ydym yn ymwybodol fod yr adroddiad blynyddol wedi'i gyhoeddi.

**56.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yr hoffai weld Rheolau Sefydlog y Senedd yn cael eu diwygio fel bod newidiadau yn y dyfodol i'r gyfraith sy'n rhan o god cyfraith Cymru yn cael eu gwneud drwy ddiwygio neu amnewid y deddfiadau yn hytrach na thrwy wneud darpariaethau gwahanol 'annibynnol'.[103] Nodwyd yn ein hadroddiad ar Filiau Cydgrynhoi cynllunio Llywodraeth Cymru fod y Pwyllgor Busnes wedi nodi'r mater hwn fel un i'r Seithfed Senedd ei ystyried, oherwydd nad oedd unrhyw godau cyfraith Cymru wedi'u sefydlu ar adeg cyhoeddi ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2025.[104]

---

[100] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026, Ionawr 2024
[101] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), Tachwedd 2025, paragraff 260
[102] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 10 Hydref 2025
[103] Fel y nodwyd ym mharagraff 35 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) ac ym mharagraff 3.13 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)
[104] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), Tachwedd 2025, paragraff 257

**57.** Mae *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023*, fodd bynnag, yn rhan o god cyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru, ac – os caiff ei ddeddfu – bydd y Bil Cynllunio (Cymru) yn rhan o god cyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio. Yn ogystal, rhagwelir y bydd y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), os caiff ei ddeddfu, hefyd yn rhan o god cyfraith Cymru ar dwristiaeth, ochr yn ochr â *Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025*.

**58.** Fel y gwnaethom nodi yn ein hadroddiad ar y Biliau Cydgrynhoi ar gyfraith cynllunio,[105] rydym o'r farn bod angen, a hynny'n fwyfwy dybryd, sicrhau bod strwythurau priodol ar waith i gefnogi codau cyfraith Cymru. Heb strwythurau o'r fath, gallai fod llai o statws i godau cyfraith Cymru ac, o ganlyniad, credwn y gallai hygyrchedd ehangach cyfraith Cymru symud am yn ôl. Gwnaethom hefyd ategu'r farn a fynegwyd yn ein hadroddiad ar y Bil Cydgrynhoi cyntaf[106] y dylid ymgynghori ag Aelodau o'r Senedd, pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd fel rhan o unrhyw adolygiad o Reolau Sefydlog y Senedd mewn perthynas â chodau cyfraith Cymru.[107]

**59.** Gan ein bod o'r farn bod angen ystyried y mater hwn ymhellach, credwn y byddai'n dda o beth pe bai unrhyw adolygiad o Reolau Sefydlog y Senedd mewn perthynas â chodau cyfraith Cymru yn cael ei lywio gan ymchwiliad pwyllgor llawn a all helpu i gynnig eglurder a thryloywder i holl ddefnyddwyr cyfraith Cymru ynghylch beth yw codau, sut y byddant yn gweithredu ac yn cael eu rheoli, ac yn y pen draw, sut y byddant yn rhan o saernïaeth cyfraith Cymru yn y dyfodol.

**Casgliad 14.** Dylai unrhyw newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd mewn perthynas â chodau cyfraith Cymru fod yn destun ymgynghori eang, ac am y rheswm hwnnw, rydym o'r farn y byddai'n dda o beth pe bai ymchwiliad gan un o bwyllgorau'r Senedd yn llywio newidiadau o'r fath.

**60.** Gwnaethom hefyd fanteisio ar y cyfle yn y Senedd hon i geisio ymdrin â mater hirsefydlog y bu rhaid i'r pwyllgorau a'n rhagflaenodd hefyd ei wynebu, sef y ffaith bod rhai offerynnau statudol yn cael eu gosod yn y Senedd yn Saesneg yn unig.

---

[105] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), Tachwedd 2025, paragraff 279
[106] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhagfyr 2022, argymhelliad 13
[107] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), Tachwedd 2025, paragraff 280

**61.** Yn ystod y Senedd hon, rydym wedi ystyried 32 o offerynnau statudol a osodwyd yn y Senedd yn Saesneg yn unig[108], o gymharu â 24 yn y bumed Senedd, a 26 yn y pedwerydd Cynulliad. Oherwydd y nifer cynyddol hwn o offerynnau, aethom ati i geisio cael gwybod beth yw'r rhwystrau sy'n atal pob offeryn statudol rhag cael ei osod gerbron y Senedd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24, esboniad Llywodraeth Cymru dros osod rhai offerynnau statudol yn Saesneg yn unig – hynny yw, offerynnau a wneir ar y cyd neu ar sail gyfansawdd â Gweinidogion o lywodraethau eraill yn y DU[109] – yw eu bod yn destun craffu gan Senedd y DU, ac nad oes gweithdrefnau seneddol arferol yn bodoli yn San Steffan ar gyfer gosod offerynnau statudol dwyieithog. O'r herwydd, dywed Llywodraeth Cymru fod rhaid gosod yr offerynnau perthnasol yn y Senedd yn Saesneg yn unig.[110]

**62.** Gwnaethom ohebu'n eang ar y mater hwn, gan gynnwys â Phwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Gweithdrefnau a Breintiau Tŷ'r Arglwyddi, Llywodraeth Cymru, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jo Stevens AS. O ganlyniad i'r gwaith hwnnw, cawsom eglurhad fod gweithdrefnau Senedd y DU yn darparu mai dim ond os yw'r ddeddfwriaeth alluogi berthnasol yn nodi bod rhaid gwneud hynny y caniateir gosod offerynnau statudol dwyieithog yn Senedd y DU.[111] Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ofynion statudol sy'n rhagnodi'r iaith y mae rhaid gosod offeryn statudol ynddi, boed hynny yn Saesneg neu mewn unrhyw iaith arall; gan hynny, bydd y mater hwn yn dychwelyd yn y Seithfed Senedd.

**63.** Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrthym ym mis Hydref 2024, byddai'n agored – yn amodol ar gytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru – i unrhyw bwerau newydd o'r math hwn bennu y dylai offerynnau statudol perthnasol a wneir drwy arfer y pwerau hynny gael eu gwneud yn ddwyieithog.[112] Rydym o'r farn y dylai hyn fod yn ystyriaeth bwysig i'r pwyllgor olynol pan fydd yn craffu ar unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir ar gyfer Biliau a

---

[108] Senedd Cymru, Is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU yn gweithredu gyda'i gilydd

[109] Yn ystod y Senedd hon, mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau hyn wedi gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr, gan ddefnyddio pwerau yn *Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998*, ac mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan ddefnyddio pwerau yn *Neddf Newid Hinsawdd 2008*.

[110] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, paragraffau 79 i 83

[111] Am gopïau o'r ohebiaeth berthnasol, gweler: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, Tachwedd 2024, paragraffau 81 ac 82 a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2024/25, Tachwedd 2025, paragraffau 59 a 60.

[112] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 15 Hydref 2024

gyflwynwyd yn Senedd y DU sy’n galluogi gwneud offerynnau statudol y mae rhaid eu gosod er mwyn craffu arnynt yn Senedd y DU ac yn y deddfwrfeydd datganoledig.

# 3. Materion cyfansoddiadol

## Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

**64.** Mae'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol (y Cytundeb) yn nodi'r wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r Senedd o ran ei chyfranogiad mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol ar lefel gweinidogion, ac mewn cytundebau, concordatau, a memoranda cyd-ddealltwriaeth.[113] Ar ran y Senedd, cytunodd y Pwyllgor hwn ar y Cytundeb presennol â Llywodraeth Cymru ar 1 Tachwedd 2021.

**65.** O ran cysylltiadau rhynglywodraethol ffurfiol, mae'n nodi y dylai Llywodraeth Cymru, lle bo modd, roi mis o rybudd ynghylch cyfarfodydd. Dylai'r rhybudd hwnnw gynnwys agenda arfaethedig a braslun o'r materion allweddol i'w trafod, a hynny er mwyn galluogi pwyllgorau'r Senedd i fynegi barn ar y pynciau dan sylw ac, os yw hynny'n briodol, eu galluogi i wahodd Gweinidogion perthnasol i gyfarfod pwyllgor cyn y cyfarfod rhynglywodraethol.

**66.** Er enghraifft, ar ôl cael manylion yr eitemau i'w trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 26 Mehefin 2025, gwnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS, i ofyn am wybodaeth am y trafodaethau a oedd i'w cynnal yn y cyfarfod ynghylch y pwerau cymorth ariannol sydd wedi'u cynnwys yn *Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*.[114] Ar ôl y cyfarfod, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei fod wedi codi'r mater a chadarnhaodd fod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ymwybodol o bryderon y gwledydd datganoledig ynghylch y mater.[115]

**67.** Fodd bynnag, yn ystod y Chweched Senedd nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi mis o rybudd ar gyfer mwyafrif helaeth y cyfarfodydd ffurfiol.

**68.** Mae'r Cytundeb hefyd yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru roi crynodeb ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod i'r Pwyllgor hwn a phwyllgorau perthnasol eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol a chyn pen pythefnos os oes modd. Dylai'r crynodebau gynnwys:

---

[113] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2021
[114] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Mehefin 2025; Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 13 Mehefin 2025
[115] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 8 Gorffennaf 2025

- gwybodaeth yn cadarnhau pryd y cynhaliwyd y cyfarfod;
- rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol;
- braslun o'r prif faterion a chynnwys y trafodaethau;
- braslun o'r safbwyntiau a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru; ac
- unrhyw ddatganiad ar y cyd a ryddhawyd ar ôl y cyfarfod.

**69.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu crynodeb cyn pen pythefnos ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y Chweched Senedd. Rydym hefyd wedi gwneud sylwadau am yr amrywiadau sylweddol o ran hyd ac ansawdd y crynodebau a ddarparwyd.[116] Mae hyn wedi creu heriau i'r Pwyllgor o ran parhau i oruchwylio cysylltiadau rhynglywodraethol a'r broses o wneud penderfyniadau.

**Casgliad 15.** Efallai y bydd pwyllgor olynol am barhau dros dro â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol presennol ar ddechrau'r Seithfed Senedd cyn cynnal ymchwiliad i ymlyniad Llywodraeth Cymru wrth y Cytundeb yn y Chweched Senedd.

**Casgliad 16.** Mae'r tirlun cyfansoddiadol yn y DU wedi newid yn sylweddol ers cytuno ar y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol ddiwethaf. Efallai y bydd pwyllgor olynol hefyd am ystyried a ddylid ehangu cwmpas y Cytundeb i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac i gynnwys gofynion adrodd ar gyfer:

- trafodaethau o fewn Fframweithiau Cyffredin, gan gynnwys trafodaethau ar eithriadau rhag egwyddorion mynediad i'r farchnad *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020;*
- cerrig milltir rhyngwladol allweddol, megis cytundebau rhyngwladol newydd a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru.

**Casgliad 17.** Yn dilyn y gwaith a awgrymir yng nghasgliadau 15 ac 16, rydym o'r farn y byddai'n dda o beth sefydlu Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol newydd rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru.

[116] Er enghraifft, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2024/25, Tachwedd 2025, paragraff 103

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

**70.** Mae adroddiadau monitro rheolaidd y Pwyllgor (gweler Atodiad 1) yn nodi gweithgarwch penodol sydd wedi digwydd mewn perthynas â chysylltiadau rhynglywodraethol. Mae ein hadroddiadau ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol hefyd wedi ymdrin â chysylltiadau rhynglywodraethol (gweler paragraff 38).

**71.** Bu datblygiadau sylweddol o ran cysylltiadau rhynglywodraethol yn ystod y Chweched Senedd, ond mae'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod yn gymysg. Ym mis Ionawr 2022, sefydlodd yr Adolygiad Rhynglywodraethol system dair haen o gysylltiadau rhynglywodraethol, gan gynnwys ysgrifenyddiaeth annibynnol a phroses newydd ar gyfer datrys anghydfodau. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar bob lefel o haenau'r Adolygiad.[117]

**72.** Ym mis Medi 2024, sefydlodd Llywodraeth y DU fforwm rhynglywodraethol newydd, sef Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau. O dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog y DU, mae'r Cyngor yn dwyn ynghyd benaethiaid y llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a meiri o'r rhanbarthau yn Lloegr. Y bwriad oedd y byddai'r Cyngor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn; fodd bynnag, dim ond ddwywaith y mae wedi cyfarfod ers ei sefydlu: ym mis Hydref 2024 ac ym mis Mai 2025.[118] Mae haen uchaf yr strwythurau a sefydlwyd gan yr Adolygiad (Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig) yn cyfarfod ar yr un diwrnod â'r Cyngor newydd.

**Casgliad 18.** Byddem yn annog pwyllgor olynol yn gryf i barhau i fonitro cyflwr cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal â'r defnydd o strwythurau cysylltiadau rhynglywodraethol ffurfiol.

## Fframweithiau cyffredin

**73.** Cytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yw Fframweithiau Cyffredin, ar sut i ymdrin ag ymwahanu mewn meysydd polisi penodol a arferai gael eu cydlynu ar lefel yr UE. Nododd llywodraethau'r DU 32 o feysydd polisi lle mae angen Fframweithiau, ac mae 26 ohonynt yn berthnasol i Lywodraeth Cymru.

[117] Llywodraeth y DU, Review of intergovernmental relations, 2022 (Saesneg yn unig)
[118] Llywodraeth y DU, Council of the Nations and Regions: Terms of Reference, 17 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)

**74.** Gwnaeth pwyllgorau'r Senedd dros 100 o argymhellion i gyd ar gytundebau'r Fframweithiau Cyffredin a'r rhaglen ehangach.[119] Roedd pwyllgorau polisi yn gyfrifol am graffu ar Fframweithiau penodol o fewn eu cylch gorchwyl, a'r Pwyllgor hwn oedd yn gyfrifol am y gwaith craffu cyffredinol ar y Fframweithiau yn eu cyfanrwydd a'u goblygiadau cyfansoddiadol.

**75.** Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd y Pwyllgor hwn adroddiad ar Fframweithiau Cyffredin gydag 21 o argymhellion.[120] Roedd llawer o'r argymhellion yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau tryloywder o ran gweithrediad y Fframweithiau.

**76.** Mae pedair llywodraeth y DU wedi dweud na fyddant yn ymateb yn unigol i argymhellion gan y deddfwrfeydd. Yn hytrach, byddant yn adolygu'r holl argymhellion ar ôl i'r pedair deddfwrfa gwblhau eu gwaith craffu. Yna, bydd y llywodraethau'n negodi, yn cytuno ar unrhyw newidiadau, ac yn ymateb i bwyllgorau.

**77.** Ar yr adeg y gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad, dim ond un Fframwaith Cyffredin sy'n ymwneud â Chymru oedd wedi'i gwblhau.[121] Mae rhai eraill yn gweithredu ar sail dros dro yn unig. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn disgwyl i saith o'r Fframweithiau sy'n ymwneud â Chymru (o blith 26) gael eu cwblhau cyn y diddymiad.[122] Mae hynny'n golygu, ar yr adeg y g wnaethom gytuno ar ein hadroddiad, nad oedd Pwyllgorau a gyflwynodd adroddiadau ar Fframweithiau yn 2022 a 2023 wedi cael ymatebion i'w hargymhellion eto (*ond gweler troednodyn*[123]).

**78.** Nid yw'n glir a yw Fframweithiau Cyffredin sy'n weithredol dros dro wedi'u diwygio i adlewyrchu argymhellion a wnaed neu a yw'r rhain wedi'u hanwybyddu.

**79.** Mae enghreifftiau o ddefnyddio Fframweithiau Cyffredin i wneud penderfyniadau allweddol rhwng llywodraethau, megis penderfyniadau ar eithriadau rhag *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (gweler isod), ac eto ychydig o dryloywder sydd i seneddau ynghylch eu gweithrediad a'r penderfyniadau a wneir odanynt. Mae pedair llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adrodd ar y cyd ar weithrediad y Fframweithiau ond dim ond pan fydd y

[119] Senedd Cymru, Fframweithiau Cyffredin – y Chweched Senedd
[120] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Fframweithiau Cyffredin, Mai 2023
[121] Llywodraeth y DU, UK Common Frameworks (Saesneg yn unig)
[122] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Mawrth 2026, Cofnod y Trafodion [165]
[123] Ar ôl i'r Pwyllgor gytuno ar ei adroddiad, ar 24 Mawrth 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Fframweithiau Cyffredin ac ysgrifennodd at y pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa, a oedd yn cynnwys ymateb i'r argymhellion a wnaethom (cytunwyd ar y testun gyda Chadeirydd y Pwyllgor).

Fframweithiau wedi'u cwblhau a'u cytuno. Mae hyn yn creu bwlch difrifol i ddeddfwrfeydd yn y DU o ran craffu.

**80.** Mae'n hollbwysig bod pwyllgor olynol yn parhau i graffu ar y cynnydd o ran cwblhau Fframweithiau Cyffredin a sicrhau bod y pedair llywodraeth yn gwella tryloywder ynghylch gweithredu'r Fframweithiau.

**Casgliad 19.** Dylai pwyllgor olynol barhau i fonitro cynnydd o ran cyflawni rhaglen y Fframweithiau Cyffredin gan gynnwys tryloywder y penderfyniadau a wneir odanynt.

## Gweithrediad Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

**81.** Cyflwynwyd *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*[124] (Deddf 2020) gan Lywodraeth flaenorol y DU i reoleiddio 'marchnad fewnol' y DU ar ôl Brexit. Gwrthododd Senedd Cymru a Senedd yr Alban roi cydsyniad ar gyfer yr Bil (fel yr oedd ar y pryd) ond fe'i pasiwyd gan Senedd y DU. Mae Rhannau 1 i 3 o Ddeddf 2020 yn sefydlu 'egwyddorion mynediad i'r farchnad' sy'n creu rhagdybiaeth y dylai (yn gyffredinol) nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol y gellir eu gwerthu neu eu cydnabod mewn un rhan o'r DU allu cael eu gwerthu neu eu cydnabod mewn unrhyw ran arall, ni waeth beth fo'r gyfraith yn y rhan arall honno o'r DU.

**82.** Mae Deddf 2020 wedi bod yn ffocws allweddol i waith ein Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd. Gwnaethom gydweithio'n agos â'r Athro Thomas Horsley o Brifysgol Lerpwl i wella dealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru o'r effaith y mae Deddf 2020 yn ei chael ar ddeddfu datganoledig.[125]

**83.** Er nad yw effaith yr egwyddorion mynediad i'r farchnad a sefydlwyd gan Ddeddf 2020 wedi'i phrofi'n llawn eto – yn bennaf oherwydd bod eithriadau wedi'u rhoi i'r egwyddorion – rydym wedi nodi pryderon mewn perthynas â sawl darn o ddeddfwriaeth y Senedd a deddfwriaeth y DU.

**84.** Rydym yn parhau i fod o'r farn nad oes angen Deddf 2020, ac mai drwy gyfrwng y Fframweithiau Cyffredin y dylid ymdrin ag ymwahanu o ran polisi rhwng gwledydd y DU. Fodd bynnag, rydym yn falch bod ymateb Llywodraeth y DU i'r adolygiad[126] o Ddeddf 2020 yn 2025 yn nodi mai'r Fframweithiau fydd y prif

[124] *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (p. 27) (Saesneg yn unig)
[125] Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn breifat gyda'r Athro Horsley ar 8 Gorffennaf 2024 (eitem 11)
[126] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020: adolygiad ac ymgynghoriad – Tystiolaeth y Pwyllgor, 2 Ebrill 2025

le ar gyfer trafod polisi ar lefel rynglywodraethol, ac y bydd Deddf 2020 yn symud i'r cefndir.[127]

**85.** Yn dilyn yr adolygiad o Ddeddf 2020, rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn fwy tryloyw ac wedi ymgysylltu'n well ynghylch effeithiau posibl Deddf 2020[128], gan gynnwys wrth iddi ystyried yr angen am eithriadau rhag yr egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer y cynllun dychwelyd ernes ac ail gam y gwaharddiadau ar gynhyrchion plastig untro. Bydd hyn yn helpu i roi sicrwydd cyfreithiol i fusnesau a defnyddwyr. Roedd amharodrwydd Llywodraeth Cymru i ymgysylltu ynghylch effaith ymarferol Deddf 2020 drwy gydol y rhan fwyaf o dymor y Senedd hon yn rhwystredig ac yn cyfyngu ar allu rhanddeiliaid a dinasyddion i ddeall effaith lawn cynigion deddfwriaethol.

**86.** Mae ymateb Llywodraeth y DU i'r adolygiad hefyd yn cynnwys ymrwymiadau i wella'r broses ar gyfer sicrhau eithriadau, megis gweithredu'r holl eithriadau y cytunwyd arnynt drwy Fframwaith Cyffredin ac ystyried effeithiau y tu hwnt i'r effeithiau economaidd, gan gynnwys diogelu'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. Mae'r datblygiadau hyn i'w croesawu, ond bydd angen i bwyllgor olynol fonitro pa mor dda y maent yn gweithio'n ymarferol.

**Casgliad 20.** Byddem yn annog pwyllgor olynol i fonitro gweithrediad yr ymrwymiadau a wneir yn ymateb Llywodraeth y DU i'r adolygiad o *Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*.

**87.** Drwy gydol y rhan fwyaf o dymor y Senedd hon, mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch effaith bosibl Deddf 2020 ar ddeddfwriaeth y Senedd yn rhy aml wedi bod yn annigonol. Ar ddiwedd 2023, gwnaethom argymell diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog i sicrhau bod gwybodaeth well yn cael ei darparu i gefnogi gwaith craffu'r Senedd.[129] Rydym yn siomedig nad yw'r newidiadau hyn wedi'u gwneud eto, ac rydym o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i hyn yn rhaglen waith y Pwyllgor Busnes newydd.

**Casgliad 21.** Yn y Seithfed Senedd, byddem yn annog y Pwyllgor Busnes neu bwyllgor sydd â chyfrifoldeb am weithdrefnau'r Senedd i ystyried diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn gwella'r wybodaeth a roddir i'r Senedd i gynorthwyo ei

[127] Yr Adran Busnes a Masnach, UK Internal Market Act 2020 – UK Government response to the Review of the United Kingdom Internal Market Act 2020 and Public Consultation 15 Gorffennaf 2025 (Saesneg yn unig)
[128] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 5 Ionawr 2026 (yn amgáu ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, Ebrill 2025)
[129] Llythyr at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes, 22 Rhagfyr 2023

waith craffu ar effaith *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* ar ddeddfwriaeth Cymru.

**88.** Rydym hefyd yn ategu ein pryder ynghylch y pwerau cymorth ariannol yn Rhan 6 o Ddeddf 2020[130], sy'n galluogi Gweinidogion Llywodraeth y DU i ariannu gweithgarwch mewn meysydd datganoledig heb gynnwys Gweinidogion Cymru na'r Senedd. Rydym o'r farn bod y pwerau hyn yn peri risg y bydd cymorth ariannol yn cael ei ddarparu mewn ffordd nad yw'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a bennwyd gan y Senedd a Llywodraeth Cymru.

**89.** Cytunwn â'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Bumed Senedd fod y pwerau hyn yn ymyrraeth ddiangen a dryslyd â gallu'r Senedd a Llywodraeth Cymru i weithredu ar ran dinasyddion Cymru. Dylai pwyllgorau yn y Seithfed Senedd barhau i bwyso am ddiddymu'r Rhan hon o Ddeddf 2020, a rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i weithredu ac ar Lywodraeth newydd Cymru i gyflwyno achos cryf mewn fforymau rhynglywodraethol ynghylch pam y dylid dileu'r pwerau hyn o'r llyfr statud.

**Casgliad 22.** Byddem yn annog pwyllgorau yn y Seithfed Senedd i barhau i bwyso am ddiddymu'r pwerau cymorth ariannol yn Rhan 6 o *Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*.

## Gweithio rhyngseneddol

**90.** Drwy gydol y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor wedi ceisio cryfhau'r berthynas bresennol â seneddau a seneddwyr eraill yn y DU. Y nod, yn benodol, oedd rhannu gwybodaeth ar faterion polisi cyffredin sy'n rhan o'n cylchoedd gorchwyl, ystyried y ffordd orau o ddwyn llywodraethau'r DU i gyfrif ynghylch gweithrediad cysylltiadau rhynglywodraethol, ac ystyried effaith polisi Llywodraeth y DU ar gyfansoddiad y DU a'r berthynas â'r UE.

**91.** Felly, mae'r Pwyllgor wedi:

- cymryd rhan yng nghyfarfodydd y fforwm rhyngseneddol[131], gan gynnal cyfarfod yng Nghaerdydd ar 28 Hydref 2022;
- cyfrannu at ymchwiliadau seneddol mewn awdurdodaethau eraill[132];

[130] Gweler: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020: adolygiad ac ymgynghoriad – Tystiolaeth y Pwyllgor, 2 Ebrill 2025
[131] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Fforwm rhyngseneddol
[132] Er enghraifft, Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith, Senedd yr Alban,

- ymgysylltu â seneddwyr yn anffurfiol fel rhan o'r ymgysylltu ar waith sy'n ymwneud â'r UE, megis Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE.

**92.** Disgwylir Bil gan Lywodraeth y DU eleni sy'n ymwneud â chydweddu â'r UE (gweler paragraffau 101 i 103).[133] Ar ôl iddo gael ei ddarlleniad cyntaf yn Senedd y DU, rydym o'r farn y dylai'r darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth fod yn gatalydd i feithrin cydweithrediad agosach fyth â phwyllgorau seneddol ledled y DU ac i ddatblygu cysylltiadau cynhyrchiol sydd o fudd i bob un, o ran craffu ar y Bil ac yn ehangach.

**Casgliad 23.** Mae gweithio rhyngseneddol yn rhan fach ond amhrisiadwy o waith pwyllgor y mae materion cyfansoddiadol a materion allanol yn rhan o'i gylch gorchwyl. Byddem yn annog unrhyw bwyllgor y mae'r naill bwnc neu'r llall yn rhan o'i gylch gorchwyl i chwarae rhan weithredol mewn gwaith rhyngseneddol ac i gymryd rhan mewn unrhyw Fforwm Rhyngseneddol yn y dyfodol.

Framework legislation and Henry VIII powers (Saesneg yn unig), ymateb ysgrifenedig (Saesneg yn unig) a thystiolaeth lafar; Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, The Governance of the Union: Consultation, Co-operation and Legislative Consent (Saesneg yn unig), tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig); Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Devolution Capability in Whitehall (Saesneg yn unig), tystiolaeth ysgrifenedig (Saesneg yn unig)

[133] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 18 Chwefror 2026; Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 6 Chwefror 2026

# 4. Materion allanol

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

**93.** Drwy gydol y Chweched Senedd, bu rhaid i'r Pwyllgor ystyried agweddau newydd ar y setliad datganoli fel y mae'n ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol. Cododd y cwestiwn cyfansoddiadol mwyaf arwyddocaol wrth i ni ystyried y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon, lle gofynnwyd i'r Senedd gydsynio i'r Bil yr oedd Llywodraeth y DU yn cydnabod y byddai'n torri cyfraith ryngwladol.[134]

**94.** Nid yw *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn crybwyll y sefyllfa hon. Gan hynny, gwnaethom lunio safbwynt newydd y gwnaethom ddibynnu arno wedi hynny o dan amgylchiadau tebyg, sef:

> *"Pe bai'r Senedd yn penderfynu rhoi ei chydsyniad i'r Bil, gallai hynny gyfrannu at dorri cyfraith ryngwladol a byddai'n golygu nad oedd Senedd Cymru yn bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol, a fyddai'n groes i ysbryd y setliad datganoli."*[135]

**Casgliad 24.** Rydym yn annog pwyllgorau olynol yn gryf i barhau i ddibynnu ar y safbwynt hwn, os bydd angen gwneud hynny yn y dyfodol.

## Cytundebau rhyngwladol

**95.** Y Senedd yw'r unig ddeddfwrfa ddatganoledig o hyd yn y DU a chanddi broses bwrpasol ar gyfer craffu ar gytuniadau. Rydym wedi ystyried 100 o gytundebau rhyngwladol anfasnachol, gan gymryd camau pellach mewn perthynas â 33 ohonynt a nodi'r gweddill er gwybodaeth yn unig.[136] O'r herwydd, rydym wedi datblygu corff sylweddol o brofiad ac arbenigedd yn y maes hwn.

**96.** Ochr yn ochr ag un o'r pwyllgorau a'n rhagflaenodd, sef y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, rydym wedi cyflwyno ymateb gan y Senedd

---

[134] Y Cyfarfod Llawn, 22 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [121 i 179] Gweler hefyd ein hadroddiad ar y Memorandwm: y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Protocol Gogledd Iwerddon, Tachwedd 2022

[135] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Protocol Gogledd Iwerddon, Tachwedd 2022, casgliad 7

[136] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Y gwersi a ddysgwyd yn sgil 100 o gytuniadau, Mawrth 2026

i'r pedwar ymchwiliad craffu ar gytuniadau diwethaf yn olynol i'w cynnal gan Senedd y DU, gan roi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig.[137]

**97.** Nid oes gan y deddfwrfeydd datganoledig rôl ffurfiol o hyd ym mhroses Senedd y DU ar gyfer craffu ar gytuniadau a nodir yn *Neddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010*[138]. Rydym yn parhau i fod o'r farn bod gwelliannau i waith craffu ar gytuniadau yn y DU yn hanfodol ac yn hir ddisgwyliedig. Dyna yw ein safbwynt o hyd, fel y dywedir yn rheolaidd yn ein hadroddiadau a'n cyflwyniadau i ymchwiliadau.[139]

**98.** Rydym o'r farn na allai gwaith craffu seneddol y DU ond elwa o roi rôl ffurfiol i'r deddfwrfeydd datganoledig, lle mae ein barn yn cael ei chydnabod a'i chynnwys. Byddai hyn hefyd yn rhoi mwy o gyfle i aelodau o Senedd y DU ymgorffori casgliadau pwysig o safbwynt datganoledig. Mae ein hadroddiad, Y gwersi a ddysgwyd yn sgil 100 o gytuniadau[140], yn trafod y materion hyn yn fanylach.

**Casgliad 25.** Rydym yn annog pwyllgor olynol yn gryf i barhau i graffu ar gytuniadau yn y Seithfed Senedd ac i fwrw ymlaen â'r argymhellion a nodir yn ein hadroddiad, Y gwersi a ddysgwyd yn sgil 100 o gytuniadau, gan gynnwys galw am rôl ffurfiol yng ngwaith craffu Senedd y DU ar gytuniadau.

## Materion y DU a'r UE

**99.** Mae'r Pwyllgor hwn wedi monitro'n ofalus y datblygiadau sy'n ymwneud â materion y DU a'r UE yn y Senedd hon. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar lywodraethiant y DU a'r UE ym mis Tachwedd 2023.[141]

**100.** Ym mis Tachwedd 2025, cymerodd y Pwyllgor ran mewn ymchwiliad traws-bwyllgor i'r adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng

---

[137] Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd, Treaty scrutiny: working practices, 2020 (Saesneg yn unig); Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, Working practices (one year on), 2021 (Saesneg yn unig); Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Scrutiny of International Treaties and other international agreements in the 21st century, 2024 (Saesneg yn unig); Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, Treaty scrutiny in Westminster: Addressing the accountability gap, 2025 (Saesneg yn unig)
[138] *Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010* (p. 25)
[139] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Y gwersi a ddysgwyd yn sgil 100 o gytuniadau, Mawrth 2026
[140] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Y gwersi a ddysgwyd yn sgil 100 o gytuniadau, Mawrth 2026
[141] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE, Tachwedd 2023

y DU a'r UE.[142] Gwnaethom gyfrannu argymhellion pwysig at yr adroddiad, gan gynnwys rhoi mwy o lais i Gymru mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Gwnaethom awgrymu gwelliannau i'r ffordd yr ymdrinnir yn ddomestig â pherthynas y DU â'r UE, gan gynnwys galw am Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol newydd ar rôl y llywodraethau datganoledig mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a chyfranogiad rhanddeiliaid. Gwnaethom hefyd annog y DU a'r UE yn gryf i wneud pob ymdrech i osgoi dwysáu cymhlethdod y trefniadau ar ôl Brexit a gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru pa waith y mae'n ei wneud i symleiddio ei chyngor a'i chanllawiau ei hun.

**Casgliad 26.** Dylai pwyllgor olynol barhau i adolygu argymhellion ein hadroddiad, Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE, yn y Seithfed Senedd er mwyn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli a bod ganddynt le wrth y bwrdd.

**101.** Ym mis Chwefror 2026, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, wybod i'r Pwyllgor am ddau ddatblygiad pwysig sydd ar y gweill yr ydym o'r farn y bydd angen i bwyllgor olynol roi sylw iddynt ar fyrder:[143]

- Disgwylir cytundebau newydd rhwng y DU a'r UE yn hanner cyntaf 2026, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig. Disgwylir i'r negodiadau presennol arwain at gytundebau ar faterion Iechydol a Ffytoiechydol, cysylltu systemau masnachu allyriadau'r DU a'r UE a mynediad y DU i farchnad drydan sengl yr UE. Roedd y rhain yn ymrwymiadau allweddol yng nghytundeb y DU a'r UE yn 2025, Common Understanding.[144]

- Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno Bil i sicrhau bod y DU yn cydweddu â'r UE yn unol â'r ymrwymiadau a wneir yng nghytundeb Common Understanding. Nid oes amserlen wedi'i chadarnhau ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd y Bil yn cwblhau ei daith erbyn diwedd 2026. Nid oes drafft wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru ac mae trafodaethau ar y pwerau yn y Bil "newydd ddechrau".[145]

[142] Senedd Cymru, Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE
[143] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 18 Chwefror 2026
[144] Y Comisiwn Ewropeaidd, A renewed agenda for European Union – United Kingdom cooperation Common Understanding, 19 Mai 2025 (Saesneg yn unig)
[145] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 18 Chwefror 2026

**102.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod i Lywodraeth y DU dro ar ôl tro am yr etholiadau sydd ar y gweill a'r "heriau y bydd diddymu'r Senedd yn eu creu i'r trafodaethau a gweithredu cytundebau o ran ailosod y berthynas â'r UE".[146]

**103.** Mae'n debyg y bydd goblygiadau sylweddol yn deillio o'r Bil i Gymru, a gallai hynny olygu y bydd angen diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**Casgliad 27.** Dylai pwyllgor olynol roi blaenoriaeth i adolygu datblygiadau ym maes rhwymedigaethau'r DU a'r UE cyn gynted â phosibl ar ôl ei sefydlu.

**104.** Mae ein gwaith ar faterion y DU a'r UE wedi'i gyfoethogi drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y DU a'r UE. Mae ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau a chyrff yr UE ym Mrwsel wedi bod yn amhrisiadwy i'r gwaith hwn gan ei fod wedi ein galluogi i feithrin dealltwriaeth o'r blaenoriaethau a'r diddordebau sy'n gyffredin rhyngom.

**Casgliad 28.** Dylai pwyllgor olynol adeiladu ar y cysylltiadau sydd wedi'u meithrin â sefydliadau a chyrff yr UE yn y Chweched Senedd er mwyn sicrhau bod ei waith ar faterion y DU a'r UE yn parhau i fod yn gadarn ac yn ddylanwadol.

[146] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 18 Chwefror 2026

# 5. Cyfiawnder yng Nghymru

**105.** Fel yr ydym wedi'i nodi yn ein hadroddiadau blynyddol[147], mae ehangder cylch gorchwyl ein Pwyllgor a'r gofynion sydd arnom i drafod materion eraill wedi bod yn rhwystr sylweddol rhag ystyried materion sy'n ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru. Serch hynny, rydym wedi parhau i wneud gwaith craffu blynyddol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ac rydym wedi cynnal sesiynau tystiolaeth rheolaidd â gweithredwyr allweddol yn y maes hwn. Yn benodol, gwnaethom groesawu Arglwyddes Brif Ustus Cymru a Lloegr, y Gwir Anrhydeddus Farwnes Carr o Walton-on-the-Hill (yr Arglwyddes Brif Ustus), i roi tystiolaeth i'r Senedd am y tro cyntaf.[148]

**106.** Er ein bod wedi gallu gwneud rhywfaint o waith cyfyngedig ar faterion cyfiawnder, rydym o'r farn, er mwyn i'r mater hwn gael yr ystyriaeth lawn y mae'n ei haeddu, fel y dywedwn yng nghasgliad 1, y dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd ystyried ehangder cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn cyn penderfynu sut i drefnu'r pwyllgorau yn y Senedd nesaf.

## Gweithredu Comisiwn Thomas

**107.** Mae gweithredu argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth y cyn Arglwydd Brif Ustus yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd (Comisiwn Thomas), a gyhoeddodd ei adroddiad terfynol yn 2019[149], wedi bod yn thema allweddol yr ydym wedi dychwelyd ati drwy gydol ein gwaith ar faterion cyfiawnder yn y Chweched Senedd. Er y byddai angen rhagor o ddatganoli neu ymgysylltu gan Lywodraeth y DU er mwyn gweithredu llawer o argymhellion y Comisiwn, mae nifer sylweddol ohonynt serch hynny'n ymwneud â materion y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt o dan y setliad presennol.

**108.** Er bod y Pwyllgor hwn wedi clywed tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y cynnydd y maent yn ei wneud o ran cyflawni argymhellion Comisiwn Thomas, mae llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio.

[147] Gweler, er enghraifft, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2023/24, Tachwedd 2024, paragraff 245
[148] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion [4 i 114]
[149] Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru, Hydref 2019

**109.** Er mwyn llywio gwaith gwaddol y Pwyllgor, comisiynodd gwasanaeth Ymchwil y Senedd Dr Robert Jones o Brifysgol Caerdydd i gynnal prosiect ymchwil i asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion Comisiwn Thomas. Yn ei adroddiad, canfu Dr Jones mai dim ond tri o'r 78 o argymhellion sydd wedi'u cyflawni'n llawn, a bod 21 wedi'u cyflawni'n rhannol. Mae hyn yn gadael 54 o'r 78 o argymhellion heb eu cyflawni yn y chwe blynedd ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn.[150]

**110.** O ran ymateb Llywodraeth Cymru, mae adroddiad Dr Jones yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn weithgar ym maes polisi cyfiawnder yng Nghymru ers cyhoeddi adroddiad Comisiwn Thomas, ond nad yw wedi gweithredu'n llawn unrhyw un o argymhellion y Comisiwn y mae'n gyfrifol amdanynt. Er ei fod yn cydnabod yr heriau o ran pandemig Covid-19 a chapasiti'r gwasanaeth sifil, dywed Dr Jones mai'r esboniad mwyaf argyhoeddiadol am y diffyg cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru yw'r ffaith nad yw, ers dechrau'r Chweched Senedd, wedi rhoi'r sylw angenrheidiol i'r mater hwn.

**111.** Gobeithiwn y bydd adroddiad Dr Jones yn braenaru'r tir er mwyn i bwyllgor olynol wneud rhagor o waith ar weithredu argymhellion Comisiwn Thomas. Er ei bod yn destun pryder fod Dr Jones wedi dod i'r casgliad bod y problemau a'r heriau niferus a lywiodd argymhellion y Comisiwn yn dal yn berthnasol heddiw, mae'n dangos bod yr atebion a gynigiwyd gan y Comisiwn yn dal yn berthnasol i'r ddadl sy'n parhau ynghylch y system gyfiawnder yng Nghymru. Fodd bynnag, efallai y bydd pwyllgor olynol am glywed rhagor o dystiolaeth am unrhyw heriau ychwanegol y mae'r system gyfiawnder yng Nghymru yn eu hwynebu.

**Casgliad 29.** Byddem yn annog pwyllgor olynol sydd â chyfrifoldeb am faterion cyfiawnder yn y Seithfed Senedd i ystyried adroddiad Dr Robert Jones ar weithredu argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Efallai y bydd am ystyried cynnal ymchwiliad i ddysgu mwy am gyflwr y system gyfiawnder yng Nghymru ar hyn o bryd a sut y mae Llywodraeth newydd Cymru yn bwriadu ymateb i argymhellion y Comisiwn.

## Craffu ar Gyllidebau Drafft

**112.** Drwy gydol tymor y Senedd hon, rydym wedi gwneud gwaith craffu blynyddol ar Gyllidebau Drafft Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwariant arfaethedig ar faterion cyfiawnder, yn ogystal â meysydd eraill sy'n rhan o gylch gorchwyl ein Pwyllgor. Mae hyn wedi cynnwys cael tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig

[150] Dr. Robert Jones, Thomas Commission Research, Chwefror 2026 (Saesneg yn unig)

gan Lywodraeth Cymru ac ystyried mewnbwn rhanddeiliaid i'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cyllid.

**113.** Yn ein hadroddiad a'n llythyr, yn y drefn honno, ar Gyllidebau Drafft 2025-26[151] a 2026-27[152], gwnaethom fynegi ein siom bod y wybodaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru am ei gwariant arfaethedig ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn llai cynhwysfawr na'r wybodaeth a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Er ein bod yn cydnabod yr anawsterau o ran dadgyfuno'r wybodaeth hon, gwnaethom nodi ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd o wella lefel y wybodaeth y mae'n ei darparu i'n Pwyllgor.

**Casgliad 30.** Byddem yn annog pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd i barhau i wneud y gwaith craffu hwn, yn enwedig os bydd pwerau'n cael eu datganoli ymhellach yn y maes hwn, ac rydym yn ei annog yn gryf i bwyso ar Lywodraeth Cymru i wella'r manylder y mae'n ei ddarparu ynghylch gwariant arfaethedig ar gyfiawnder.

## Datganoli cyfiawnder

**114.** Drwy gydol y Chweched Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi eiriol yn gyson dros ddatganoli cyfiawnder yn llwyr. Roedd yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru yn 2021[153] ac yn rhan o Raglen Lywodraethu 2021-26[154].

**115.** Fodd bynnag, yn ystod tymor y Senedd hon nid ydym wedi gweld cynnydd sylweddol gan Lywodraeth Cymru tuag at gyflawni ei nod, a hynny er gwaethaf ymrwymiadau ym maniffesto Llafur y DU yn etholiad cyffredinol 2024 ynghylch edrych ar ddatganoli'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid.

**116.** Yn ein sesiwn dystiolaeth gyda Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol ar 2 Mawrth 2026, dywedwyd wrthym y byddai datganiad yn cael ei wneud ar gynnydd tuag at ddatganoli'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid cyn diwedd tymor y Senedd hon. Ar yr adeg y gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad, nid oedd y datganiad hwnnw wedi'i wneud.

---

[151] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Chwefror 2025.
[152] Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 12 Rhagfyr 2025
[153] Llywodraeth Cymru, Y Cytundeb Cydweithio: rhaglen bolisi lawn, Rhagfyr 2021
[154] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: diweddariad, Rhagfyr 2021

**Casgliad 31.** Efallai y bydd pwyllgor olynol sydd â chyfrifoldeb am faterion cyfiawnder yn y Seithfed Senedd am glywed gan Lywodraeth newydd Cymru a yw'n bwriadu parhau â'r gwaith tuag at ddatganoli cyfiawnder, ac ystyried cerrig milltir allweddol tuag at yr amcan hwnnw i gynorthwyo ei waith craffu ar gynnydd.

## Tribiwnlysoedd Cymru

**117.** Er bod y rhan fwyaf o faterion cyfiawnder yn dal i fod wedi'u cadw'n ôl gan Senedd y DU, mae Tribiwnlysoedd Cymru wedi'u datganoli. Maent yn cwmpasu meysydd fel adolygiadau iechyd meddwl, tir amaethyddol ac addysg. Mae'r Tribiwnlysoedd yn cael eu goruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i aelodau Tribiwnlysoedd Cymru, cyfleu barn aelodau i Weinidogion Cymru a'r Senedd, a dyroddi cyfarwyddydau ymarfer i'r tribiwnlysoedd.

**118.** Yn ystod tymor y Senedd hon, rydym wedi cynnal sesiwn dystiolaeth i graffu ar bob un o adroddiadau blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.[155] Rydym yn ddiolchgar i'r cyn-Lywydd, Syr Wyn Williams, a'r Llywydd presennol, Syr Gary Hickinbottom, am ymgysylltu'n adeiladol â'n Pwyllgor ac am godi materion pwysig gyda ni yn ystod ein sesiynau craffu.

**119.** Yn benodol, rydym wedi nodi'r heriau y mae aelodau Tribiwnlysoedd Cymru yn eu hwynebu o ran cael cymorth hyfforddi drwy'r Coleg Barnwrol a gwnaethom godi'r mater hwn gyda'r Arglwyddes Brif Ustus pan roddodd dystiolaeth i'n Pwyllgor ar 2 Chwefror 2026.[156]

**120.** Yn sgil adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2021[157], mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnig cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio Tribiwnlysoedd Cymru. Byddai hyn yn cynnwys creu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru gyda siambrau'n seiliedig ar bob awdurdodaeth a sefydlu Tribiwnlys Apêl i Gymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn ar ei chynigion[158] ac ymrwymodd i gyflwyno deddfwriaeth yn y Chweched Senedd.[159]

---

[155] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 1 Tachwedd 2021, Cofnod y Trafodion; 13 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion; 14 Hydrefr 2024, Cofnod y Trafodion; 8 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion

[156] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion [104]

[157] Comisiwn y Gyfraith, Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru

[158] Llywodraeth Cymru, System dribiwnlysoedd newydd i Gymru: Papur gwyn, Mehefin 2023

[159] Y Cyfarfod Llawn, 27 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion [122]

**121.** Rydym yn rhannu siom Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru nad yw'r ddeddfwriaeth hon wedi'i chyflwyno yn ystod tymor y Senedd hon. Yn ei farn ef, mae'r diwygiadau'n "hanfodol i gynnydd system gyfiawnder effeithlon ac effeithiol yng Nghymru".[160] Mewn gohebiaeth ar 16 Mawrth 2026, dywedodd Llywodraeth Cymru yn hytrach ei bod yn bwriadu llunio Bil drafft yn barod i'r llywodraeth nesaf ei ystyried ym mlwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd.[161] Yn ein barn ni, un o'r pethau cyntaf y dylai ein pwyllgor olynol ei wneud yw gofyn i Lywodraeth newydd Cymru am amserlen ar gyfer cyflwyno a gweithredu'r diwygiadau hyn i Dribiwnlysoedd Cymru, y mae mawr eu hangen.

**Casgliad 32.** Byddem yn annog y pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am faterion cyfiawnder yn y Seithfed Senedd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer cyflwyno Bil i ddiwygio Tribiwnlysoedd Cymru, a hynny ar fyrder.

## Craffu ar faterion penodol sy'n ymwneud â chyfiawnder

**122.** Er bod y rhan fwyaf o'n gwaith wedi ymwneud â materion strwythurol a chyfansoddiadol trawsbynciol mewn perthynas â chyfiawnder, mae nifer o faterion gweithredol yr ydym wedi ymddiddori'n benodol ynddynt.

### Canolfan Breswyl i Fenywod

**123.** Mae'r Pwyllgor wedi ymddiddori ers tro byd yn y cynnydd o ran sefydlu'r Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig yn Abertawe. Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU mai yng Nghymru y byddai'r Ganolfan Breswyl gyntaf i Fenywod.[162]

**124.** Diben y Ganolfan yw darparu cyrchfan amgen i fenywod sydd wedi cael dedfryd o 12 mis neu lai o garchar, gyda gwasanaethau megis cymorth iechyd meddwl un ag un, cwnsela a chymorth i oresgyn caethiwed. Bwriedir i hynny ymdrin â'r ffactorau sylfaenol sy'n peri i fenywod gyflawni troseddau lefel isel.

[160] Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Chweched Adroddiad Blynyddol 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025, Awst 2025
[161] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 16 Mawrth 2026
[162] Llywodraeth Cymru, Canolfan breswyl i droseddwyr benywaidd yng Nghymru, 5 Mai 2020

**125.** Cyhoeddwyd yn 2022 y byddai'r Ganolfan yn agor yn 2024, yn Abertawe, ar gost o £10 miliwn.[163] Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y safle ym mis Awst 2023.[164]

**126.** Fodd bynnag, er gwaetha'r cyhoeddiadau hyn a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Ganolfan, ni fu dim cynnydd hyd yma o ran sefydlu'r Ganolfan. Gwnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ym mis Ionawr 2026[165] i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y Ganolfan a gwnaethom godi'r mater eto mewn gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2026.[166]

**127.** Mewn gohebiaeth ar 16 Mawrth 2026, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym, er nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud penderfyniadau terfynol i gefnogi'r Ganolfan, fod swyddogion "yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y Ganolfan yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn cael ei symud yn ei blaen cyn gynted â phosibl". Mae'r llythyr yn nodi bod Gweinidog Carchardai Llywodraeth y DU, yr Arglwydd Timpson, yn "gefnogol o'r Ganolfan" ac "yn bersonol yn ceisio symud y mater hwn yn ei flaen".[167]

**Casgliad 33.** Os nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto, byddem yn annog yn gryf y pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd sydd â chyfrifoldeb am faterion cyfiawnder i fynd i'r afael â'r mater hwn ar fyrder gyda Llywodraeth newydd Cymru.

## Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd ac ystad y llysoedd

**128.** Rydym hefyd wedi codi pryderon ynghylch ansawdd ystad y llysoedd yng Nghymru, yn enwedig o ran Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd, y dywedodd Comisiwn Thomas amdani yn 2019: "Nid yw'n addas at y diben".[168]

**129.** Ym mis Mehefin 2022, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd, Mick Antoniw AS, fod methiant y Weinyddiaeth Gyfiawnder i wella cyfleusterau'r llysoedd yng Nghymru, a Chanolfan Cyfiawnder

---

[163] Llywodraeth y DU, Location of first ground-breaking Residential Women's Centre revealed, 20 Mai 2022 (Saesneg yn unig)
[164] Tŷ'r Cyffredin, Cwestiwn ysgrifenedig i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, 20 Mawrth 2024 (Saesneg yn unig)
[165] Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 14 Ionawr 2026
[166] Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 3 Mawrth 2026
[167] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 16 Mawrth 2026
[168] Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru, Hydref 2019, paragraff 8.14

Sifil Caerdydd yn benodol, yn sgandal, a phe bai'n fater datganoledig, na fyddai Llywodraeth Cymru yn cael gadael i hynny ddigwydd.[169]

**130.** Ym mis Rhagfyr 2025, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Senedd ei bod wedi bod yn "gweithio ers peth amser gyda barnwyr yng Nghymru i wella'r ganolfan cyfiawnder sifil", a dywedodd: "nid yw cystal â'r disgwyl o gwbl".[170] Wrth drafod y mater hwn â'r Pwyllgor, cyfeiriodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd at gyfarfod rhyngddi a'r Arglwyddes Brif Ustus.[171]

**131.** Fel y nodwyd eisoes, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Arglwyddes Brif Ustus ar 2 Chwefror 2026. Yn ei sylwadau agoriadol, ategodd ei hymrwymiad i fwrw ymlaen â Chanolfan Cyfiawnder Sifil newydd i Gaerdydd, a dywedodd fod dybryd angen hynny. Dywedodd fod angen adeilad addas at y diben sy'n dod â chyfraith sifil, cyfraith teulu, cyfraith gyhoeddus a gwaith y tribiwnlysoedd at ei gilydd.[172] Ychwanegodd nad yw pethau wedi newid ers sylwadau Comisiwn Thomas yn 2019, ac, er mwyn darparu canolfan newydd, y byddai angen cydweithio rhwng y farnwriaeth, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r proffesiynau.[173]

**132.** Wedi hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Weinyddiaeth Gyfiawnder[174] i dynnu sylw at ein pryderon. Gwnaethom ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch sut y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, yr Arglwyddes Brif Ustus, proffesiwn y gyfraith a rhanddeiliaid eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith y mae angen ei wneud ar fyrder i ddatrys y problemau y mae Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd yn eu hwynebu.

**133.** Ymatebodd Gweinidog Llywodraeth y DU dros y Llysoedd a'r Gwasanaethau Cyfreithiol, Sarah Sackman AS, ar 17 Mawrth 2026 a chydnabu gryfder y teimladau a'r rhwystredigaeth ymhlith y proffesiwn cyfreithiol ynghylch cyflymder y cynnydd. Nododd fod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn parhau i

[169] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Mehefin 2022, Cofnod y Trafodion [168]
[170] Y Cyfarfod Llawn, 9 Rhagfyr 2025, Cofnod y Trafodion [115]
[171] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion [72]
[172] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion [10]
[173] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion [12]
[174] Llythyr at Weinidog Llywodraeth y DU dros y Llysoedd a'r Gwasanaethau Cyfreithiol, 9 Chwefror 2026

ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd i ddod o hyd i opsiynau ar gyfer adleoli.[175]

**134.** Gwnaethom hefyd godi'r mater gyda Llywodraeth Cymru,[176] a ddywedodd wrthym, er nad yw'n rhan o'r holl drafodaethau sy'n ymwneud â dyfodol y Ganolfan, ei bod yn deall bod "gwaith manwl ar y gweill i asesu dichonoldeb opsiynau posibl yn ariannol ac o ran seilwaith"[177].

**Casgliad 34.** Byddem yn annog pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd sydd â chyfrifoldeb am faterion cyfiawnder i ymweld â Chanolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd ac i barhau i bwyso am fuddsoddiad i wella cyfleusterau'r llysoedd ledled Cymru.

## Carchar y Parc

**135.** Ym mis Mai 2024, gwnaethom drafod pryderon a godwyd gan aelod o'n Pwyllgor, Adam Price AS[178], ynghylch y cynnydd yn nifer y marwolaethau yng Ngharchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gwnaethom gytuno i fonitro'r sefyllfa yn y carchar yn ofalus, ac yna gwnaethom ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, i fynegi ein pryderon difrifol ynghylch y sefyllfa.

**136.** Gwnaethom ymweld â'r carchar ddwywaith, ym mis Rhagfyr 2024 ac ym mis Mehefin 2025, i weld y cyfleusterau a'r ardaloedd preswyl yn y carchar, ac i gynnal trafodaethau manwl â rheolwyr y carchar ynghylch y digwyddiadau yn gynnar yn 2024 a'r camau a oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'n pryderon.

**137.** Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi adroddiad ar arolygiad dirybudd o Garchar y Parc ym mis Ionawr 2025. Nododd yr adroddiad ddirywiad difrifol mewn safonau ers yr arolygiad diwethaf yn 2022, gyda dirywiad ym mhob un o'r pedwar canlyniad 'carchar iach', ac roedd y tri phryder â blaenoriaeth o arolygiad 2022 yn dal heb eu datrys.[179]

**138.** Nodwn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth ar 16 Chwefror 2026, a oedd yn adolygu'r cynnydd a wnaed yng Ngharchar y Parc ers yr arolygiad ym mis

[175] Llythyr oddi wrth Weinidog Llywodraeth y DU dros y Llysoedd a'r Gwasanaethau Cyfreithiol, 17 Mawrth 2026 (Saesneg yn unig)
[176] Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 3 Mawrth 2026
[177] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 16 Mawrth 2026
[178] Llythyr gan Adam Price MS, 8 Mai 2024 [Saesneg yn unig]
[179] Arolygiaeth Carchardai EF, Adroddiad ar arolygiad dirybudd o CEF y Parc, 23 Ebrill 2025

Ionawr 2025.[180] Er ei bod yn dda o beth bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud tuag at leihau nifer y cyffuriau anghyfreithlon sy'n dod i mewn i'r carchar, rydym yn dal i bryderu nad oes digon o gynnydd mewn perthynas â dros hanner y pryderon a adolygwyd. Yn benodol, rydym yn pryderu bod nifer yr achosion o drais a hunan-niweidio yn dal yn uchel yn y carchar, fod y cynnydd a wnaed o ran mynediad at waith, addysg a hyfforddiant yn gyfyngedig, a bod problemau'n parhau o ran lleihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd.

**139.** Efallai y bydd pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd sydd â chyfrifoldeb am faterion cyfiawnder am edrych yn fwy manwl ar y sefyllfa yng Ngharchar y Parc. Awgrymwn y dylai'r Pwyllgor gydweithio'n agos â'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin, yn enwedig gan fod y Pwyllgor hwnnw'n cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i Garchardai, y Gwasanaeth Prawf ac Adsefydlu yng Nghymru.[181]

**Casgliad 35.** Byddem yn annog pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd sydd â chyfrifoldeb am faterion cyfiawnder i barhau i fonitro'r sefyllfa yng Ngharchar y Parc ac i ystyried y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn ystod ei ymchwiliad i Garchardai, y Gwasanaeth Prawf ac Adsefydlu yng Nghymru.

[180] Arolygiaeth Carchardai EF, Report on an independent review of progress at HMP Parc, 16 Chwefror 2026 (Saesneg yn unig)
[181] Tŷ'r Cyffredin, y Pwyllgor Materion Cymreig, Prisons, Probation and Rehabilitation in Wales (Saesneg yn unig)

# Atodiad 1: Adroddiadau Monitro

Ar ddechrau'r Chweched Senedd, cytunodd y Pwyllgor i fonitro datblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â'i gylch gorchwyl. Mae'r Pwyllgor yn trafod y materion hyn yn rheolaidd ac yn cytuno ar unrhyw gamau y mae am eu cymryd yn sgil hynny. Mae adroddiadau monitro yn cael eu cyhoeddi yn rheolaidd er mwyn rhoi gwybodaeth i randdeiliaid.

## Adroddiadau Monitro a gyhoeddwyd yn ystod y Chweched Senedd

**Adroddiad Monitro – Medi 2021**

**Adroddiad Monitro – Tachwedd 2021**

**Adroddiad Monitro – Ionawr 2022**

**Adroddiad Monitro – Mai 2022**

**Adroddiad Monitro – Gorffennaf 2022**

**Adroddiad Monitro – Medi 2022**

**Adroddiad Monitro – Tachwedd 2022**

**Adroddiad Monitro – Ionawr 2023**

**Adroddiad Monitro – Mawrth 2023**

**Adroddiad Monitro – Mehefin 2023**

**Adroddiad Monitro – Gorffennaf 2023**

**Adroddiad Monitro – Ionawr 2024**

**Adroddiad Monitro – Ebrill 2024**

**Adroddiad Monitro – Medi 2024**

**Adroddiad Monitro – Ionawr 2025**

**Adroddiad Monitro – Mai 2025**

**Adroddiad Monitro – Medi 2025**

**Adroddiad Monitro – Ionawr 2026**

# Atodiad 2: Is-ddeddfwriaeth y mae angen offerynnau cywiro ar ei chyfer, ym mis Mawrth 2026

| Rhif yr offeryn | Gosodwyd | Teitl | Pwyntiau adrodd perthnasol ac ymateb Llywodraeth Cymru | Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **795** | 06/03/26 | Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 | Mae adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 3 phwynt craffu technegol: un yn ymwneud â chyfeiriad anghywir at bwerau galluogi, gwall drafftio o ran yr unigol/lluosog, ac anghysondeb rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried diwygiadau i ymdrin â'r materion hyn cyn 1 Chwefror 2027, pan ddaw'r Rheoliadau i rym. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg |
| **790** | 05/03/26 | Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2026 | Mae ail bwynt adrodd y Pwyllgor yn nodi bod y term "(neu unig ddylunydd)" yn ymddangos ddwywaith yn rheoliad 17A(2), ond y dylid defnyddio'r term diffiniedig "unig ddylunydd neu ddylunydd arweiniol".<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cywiro hyn, a bydd yn gwneud hynny pan ddaw'r cyfle nesaf. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai |

| Rhif yr offeryn | Gosodwyd | Teitl | Pwyntiau adrodd perthnasol ac ymateb Llywodraeth Cymru | Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **781** | 24/02/26 | Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 | Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 10 pwynt adrodd ynghylch ffurf/ystyr aneglur, gwaith drafftio diffygiol, ac anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.<br><br>Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud diwygiadau i fynd i'r afael â phwyntiau adrodd 1-6 ac 8-19 y Pwyllgor fel rhan o'r "gwaith parhaus i gynnal Gorchymyn 2025". | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai |
| **778** | 19/02/26 | Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Diwygio) (Cymru) 2026 | Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 13 o bwyntiau craffu technegol, ynghylch gwaith drafftio diffygiol, ystyr neu ffurf y mae angen eglurhad pellach yn eu cylch ac anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.<br><br>Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ystyried y pwyntiau a ganlyn ar gyfer eu diwygio "pan fydd cyfle priodol yn codi": 2, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 11 a 12. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **774** | 12/02/26 | Rheoliadau Cynllun Ernes ar gyfer Cynwysyddion | Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 15 pwynt adrodd ynghylch ffurf/ystyr aneglur, gwaith drafftio | Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid |

| Rhif yr offeryn | Gosodwyd | Teitl | Pwyntiau adrodd perthnasol ac ymateb Llywodraeth Cymru | Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | Diodydd (Cymru) 2026 | diffygiol, ac anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.<br><br>Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ym mhwyntiau adrodd 4, 7, 8, 14 a 15 "pan fo'r cyfle nesaf yn codi". | Hinsawdd a Materion Gwledig |
| **772** | 11/02/26 | Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026 | Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 73 o bwyntiau adrodd technegol, a oedd yn nodi nifer o wallau teipograffyddol a gramadegol a gwallau o ran fformadu a chroesgyfeirio; gwaith drafftio diffygiol; termau heb eu diffinio; a gwahaniaethau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.<br><br>Yn ei hymateb, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gywiro'r pwyntiau craffu a ganlyn yn y dyfodol: 1, 2, 4, 5, 8, 9, 10, 11, 12, 16, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 26, 27, 29, 30, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 40, 41, 42, 43, 46, 47, 48, 52, 53, 54, 55, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, a 73. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **769** | 10/02/26 | Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026 | Roedd ail bwynt adrodd ar rinweddau'r Pwyllgor yn holi pam y datgymhwysir cyfundrefn safonau'r Gymraeg ar gyfer dogfennau a roddir ar gael o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ond nid ar gyfer | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg |

| Rhif yr offeryn | Gosodwyd | Teitl | Pwyntiau adrodd perthnasol ac ymateb Llywodraeth Cymru | Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | | dogfennau a geir drwy'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.<br><br>Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn ystyried a oes angen "cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio pob set o Reoliadau Safonau i bennu y dylai dogfennau sy'n cael eu rhoi ar gael i'r cyhoedd o ganlyniad i Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 gael eu hesemptio o'r gyfundrefn safonau." | |
| **753** | 06/02/26 | Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026 | Mae pwyntiau craffu technegol 4 a 15 y Pwyllgor yn tynnu sylw at anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.<br><br>Cydnabu Llywodraeth Cymru y gwallau ac mae wedi ymrwymo i ystyried diwygiadau pan fydd y Rheoliadau yn cael eu diwygio nesaf. | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio |
| **742** | 02/02/26 | Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau | Mae pwynt craffu technegol 3 y Pwyllgor yn holi am y diffiniad o'r term "cofnod iechyd personol y claf". Mae pwynt craffu technegol 5 yn holi a ddylid defnyddio | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd |

| Rhif yr offeryn | Gosodwyd | Teitl | Pwyntiau adrodd perthnasol ac ymateb Llywodraeth Cymru | Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2026 | "rhaid" yn hytrach na "bydd" er mwyn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Bwrdd Iechyd Lleol.<br><br>Cydnabu Llywodraeth Cymru y pwyntiau craffu technegol hyn, a dywedodd y bydd yn ystyried diwygiadau i'w cynnwys pan fydd y Rheoliadau yn cael eu diwygio nesaf. Disgwylir i hynny ddigwydd yn ddiweddarach yn 2026. | a Gofal Cymdeithasol |
| **708** | 18/12/25 | Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025 | Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 23 o bwyntiau craffu technegol ac 1 pwynt craffu ar rinweddau ynghylch ystod o faterion.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phwyntiau craffu technegol 2, 4 a 7 pan fydd Rheoliadau 2010 yn cael eu diwygio nesaf. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai |
| **707** | 17/12/25 | Rheoliadau Adeiladu (Gweithdrefnau Adeiladau Risg Uwch) (Cymru) 2025 | Roedd trydydd pwynt adrodd technegol y Pwyllgor yn tynnu sylw at anghysondeb yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwall a tynnwyd sylw ato ym mhwynt adrodd technegol 3 pan fydd y Rheoliadau yn cael eu diwygio nesaf. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai |

| Rhif yr offeryn | Gosodwyd | Teitl | Pwyntiau adrodd perthnasol ac ymateb Llywodraeth Cymru | Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **704** | 17/12/25 | Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2026 | Mae pwynt adrodd technegol 1 yn dweud mai nod y Gorchymyn yw mewnosod testun ym mrawddeg gyntaf paragraff 5, ar ôl yr ymadrodd "for the relevant period". Fodd bynnag, nid yw'r ymadrodd hwn yn ymddangos ym mrawddeg gyntaf paragraff 5.<br><br>Derbyniodd Llywodraeth Cymru y pwynt, ac mae'n "gweithio ochr yn ochr â'r Llywodraethau eraill sy'n aelodau o Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i benderfynu ar yr opsiwn gorau ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn, gyda'r bwriad o gywiro'r gwall cyn gynted ag y bo modd." | Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig |
| **700** | 15/12/25 | Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 | Nododd y Pwyllgor gyfres o wallau ac anghysondebau yn y testun Cymraeg.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y pwyntiau adrodd, ac mae'n derbyn bod rhai mân anghysondebau. Bydd y rhain yn cael eu nodi ac eir i'r afael â hwy "pan fydd y cyfle nesaf yn codi". | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai |
| **698** | 15/12/25 | Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr Unigol | Nododd y Pwyllgor gyfres o wallau ac anghysondebau yn y testun Cymraeg.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y pwyntiau adrodd, ac mae'n derbyn bod rhai mân | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai |

| Rhif yr offeryn | Gosodwyd | Teitl | Pwyntiau adrodd perthnasol ac ymateb Llywodraeth Cymru | Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | (Etholiadau'r Senedd) 2025 | anghysondebau. Bydd y rhain yn cael eu nodi ac eir i'r afael â hwy "pan fydd y cyfle nesaf yn codi". | |
| **681** | 21/11/25 | Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 | Mae adroddiad y Pwyllgor yn tynnu sylw at y ffaith bod y diffiniad presennol o "cymdeithas gofrestredig" ar goll o destun Cymraeg paragraff 1(1) o'r Atodlen i Orchymyn 2008 a hefyd o baragraff 10(2)(a)(ix)(bb).<br><br>Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu'r diffiniadau yn yr Atodlen fel rhan o waith parhaus Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Fframwaith Safonau Moesegol Llywodraeth Leol yng Nghymru. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai |
| **674** | 06/11/25 | Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) | Mae pwyntiau adrodd technegol 1, 2 a 3 yn ymwneud ag anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.<br><br>Cydnabu Llywodraeth Cymru y gwall ond roedd o'r farn mai mân wall ydyw. Roedd yn holi Cofrestrydd yr OSau ynghylch defnyddio slip cywiro i gywiro'r gwall. Os na all gywiro'r gwall yn y modd hwnnw, ystyrir ei ddiwygio ymhellach fel rhan o'r ddyletswydd barhaus i adolygu'r rhestrau a nodir yn rheolaidd, heb fod yn fwy na chyfnod o 6 mis. | Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant |

| Rhif yr offeryn | Gosodwyd | Teitl | Pwyntiau adrodd perthnasol ac ymateb Llywodraeth Cymru | Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | 2019/1793) (Cymru) 2025 | | |
| **672** | 04/11/25 | Rheoliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (Tapro, Hawliau i Daliadau a Chau) (Cymru) 2025 | Mae pwynt adrodd technegol 1 yn tynnu sylw at y ffaith bod y Rheoliadau'n cyfeirio at Erthygl mewn Rheoliad gan yr UE sydd wedi'i diddymu.<br>Dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n diwygio'r ddarpariaeth ar hyn o bryd ond y bydd yn gwneud hynny pan fydd cyfle addas yn codi. | Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig |
| **667** | 23/10/25 | Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025 | Dywed pwynt adrodd 2, "Yn yr Atodlen 1 newydd i Reoliadau 1997, cyfeirir ar ddau achlysur at "Ddeddf 2006". Nid yw'r term hwn wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau nac yn Rheoliadau 1997."<br>Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru fod "Atodlen 1 i Reoliadau 1997 yn ddarostyngedig i ddiwygiadau blynyddol. O ystyried y cyfle hwnnw, byddwn yn ceisio gwneud diwygiad yn hyn o beth pan ddaw'r cyfle nesaf hwnnw." | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **609** | 31/03/25 | Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) | Mae pwynt adrodd 1 yn ymwneud â gwaith drafftio diffygiol. | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr |

| Rhif yr offeryn | Gosodwyd | Teitl | Pwyntiau adrodd perthnasol ac ymateb Llywodraeth Cymru | Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 | Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru, "Eir i'r afael â hyn yn y cyfrwng deddfwriaethol addas nesaf cyn diwedd y flwyddyn." | Economi, Ynni a Chynllunio |
| **600** | 11/03/25 | Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025 | Mae pwynt adrodd 2 yn ymwneud ag ystyr termau allweddol yn y Gorchymyn.<br>Dywed ymateb Llywodraeth Cymru, "… nodwn eich sylwadau a byddwn yn eu hystyried ar gyfer Gorchymyn 2026." | Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig |
| **457** | 20/02/24 | Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 | Mae pwynt adrodd 3 yn ymwneud â gwaith drafftio diffygiol.<br>Wrth ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru, "Efallai y bydd newid bach i'r geiriad o gymorth i'r darllenydd, ond nid yw hwn yn welliant brys sy'n ofynnol i'r Rheoliadau a bydd yn cael ei adolygu ar y cyfle cyntaf i'w ddiwygio." | Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol[182] |

[182] Gosodwyd yr offeryn yn wreiddiol gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, ond mae bellach yn rhan o gylch gorchwyl y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.